Bioamrywiaeth Cymru
Biodiversity Wales

PARTNERIAETH BIOAMRYWIAETH CYMRU
WALES BIODIVERSITY PARTNERSHIP

**Grŵp Llywio 19 Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru**
19 Chwefror 2013
Abertawe

## AGENDA

Cynhelir 19eg cyfarfod Grŵp Llywio Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru yng Nghanolfan yr Amgylchedd Abertawe (cliciwch yma i weld map o'r lleoliad). Bydd te a choffi ar gael o 10:00 ymlaen.

| AMSER | PAPUR RHIF: | TEITL | ARWEINYDD |
|---|---|---|---|
| 10:00 | **Ymgynnull, te/coffi** | | |
| 10:30 | 1 | **Croeso:** Cyflwyniad ac ymddiheuriadau | Matthew Quinn |
| 10:35 | 2 | **Diweddaru:** Fframwaith Gweithredu Bioamrywiaeth Cymru | John Watkins |
| 11:15 | 3 | **Prif bapur:** Diwygiadau adran 42 | Stephen Bladwell/ Clare Burrows |
| 11:55 | 4 | **Prif bapur:** Adroddiadau blynyddol Grwpiau Cymru Gyfan Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru | Tracey Lovering |
| **12:35** | **CINIO – dewch â phecyn bwyd gyda chi** | | |
| 13:30 | 6 | **Prif bapur:** Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru – Cynllunio a Chyllidebu | Sean McHugh |
| 14:05 | 7 | Papurau i'w nodi:<br>- **A:** Y diweddaraf am droseddau yn erbyn bywyd gwyllt<br>- **B:** Prosiect Safleoedd Bywyd Gwyllt Lleol De-ddwyrain Cymru<br>- **C:** Hyfforddiant ynghylch Tacsonomi a Sgiliau Adnabod: Asesu Anghenion a'r Ddarpariaeth yng Nghymru<br>- **D:** Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru – Gweithgareddau Codi Ymwybyddiaeth | <br>Matt Howells<br>Melanie Dodd<br>Graham Oliver<br>Sean McHugh |
| 14:35 | 8 | Adborth gan Bartneriaeth Arfordir a Môr Cymru | |
| 14:40 | 9 | Y diweddaraf o'r pedair gwlad | |
| 14:50 | 10 | Cadarnhau cofnodion a chamau gweithredu'r cyfarfod diwethaf | |
| 15:00 | 11 | Unrhyw fater arall | |
| 15:15 | 12 | **Dyddiad/Fformat cyfarfodydd yn y dyfodol** | |
| 15:30 | **Te prynhawn a gorffen** | | |

Mae gwasanaeth trenau rheolaidd yn gweithredu o Abertawe. Gellir gweld y manylion ar www.nationalrail.co.uk.

**WBPSG19**
**PAPUR 01**
**19 Chwefror 2013**

## Diwygio Rhestr Adran 42 - Ffridd

**Diwygio Rhestr Rhywogaethau a Chynefinoedd â Blaenoriaeth Cymru: Adran 42 Deddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006 er mwyn cynnwys ffridd (coedcae, cyrion yr ucheldir)**

### *Cynnydd*

Ar 14 Tachwedd 2012 cyflwynwyd papur (papur 05 WBPSG18) i Grŵp Llywio Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru, a oedd yn amlinellu cynnig i ddiwygio'r rhestr Adran 42 er mwyn cynnwys ffridd (coedcae, cyrion yr ucheldir) fel cynefin newydd. Mae'r cynnig yn mynd i'r afael â bwlch allweddol yn y rhestr o gynefinoedd â blaenoriaeth ar gyfer Cymru trwy ychwanegu ffridd, a elwir hefyd yn goedcae neu'n gyrion yr ucheldir, fel cynefin sydd o'r pwysigrwydd pennaf o safbwynt gwarchod bioamrywiaeth yng Nghymru. Mae ffridd yn gynefin sy'n unigryw i Gymru. Mae'n werthfawr iawn o safbwynt bioamrywiaeth, mae'n bwysig o safbwynt diwylliannol ac mae'n nodwedd arwyddocaol o'r dirwedd ledled ucheldiroedd Cymru.

Cafwyd cefnogaeth gyffredinol i'r cynnig yn y cyfarfod, a derbyniwyd pwysigrwydd ecosystem ffridd o safbwynt biolegol, ond roedd y Cadeirydd ac eraill o Lywodraeth Cymru a oedd yn bresennol yn pryderu ynghylch goblygiadau ehangach diwygio'r rhestr.

Yn dilyn hynny, mae union ystyr Adran 42 Deddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006 wedi'i gadarnhau, a gofynnwyd am farn Tîm Cyfarwyddwyr Cyngor Cefn Gwlad Cymru hefyd. Cymeradwyodd y Tîm Cyfarwyddwyr y cynnig i ddiwygio'r rhestr Adran 42 er mwyn cynnwys cynefin ffridd, gan fod aelodau'r Tîm o'r farn bod sylfaen dystiolaeth dda i gefnogi cynnwys y cynefin gwerthfawr hwn yn y rhestr.

### *Cynnig*

Mae'r papur hwn yn ymhelaethu ar y cynnig blaenorol i ddiwygio'r rhestr Adran 42, trwy egluro gofynion cyfreithiol Deddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig.

Mae Adran 40 Deddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig yn rhoi dyletswydd ar bob awdurdod cyhoeddus, wrth iddo gyflawni ei swyddogaethau, i ystyried y modd y caiff bioamrywiaeth ei warchod.

Dan Adran 42 Deddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig:

> (1) Rhaid i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, yng nghyswllt Cymru, gyhoeddi rhestr o'r organebau byw a'r mathau o gynefin sydd o'r pwysigrwydd pennaf, ym marn y Cynulliad, ar gyfer gwarchod bioamrywiaeth.

(2) Cyn cyhoeddi unrhyw restr, rhaid i'r Cynulliad ymgynghori â Chyngor Cefn Gwlad Cymru ynghylch yr organebau byw neu'r mathau o gynefin y dylid eu cynnwys yn y rhestr.

(3) Heb wneud niwed i adran 40 (1) a (2), rhaid i'r Cynulliad:

a) gymryd camau sy'n ymddangos yn rhesymol ymarferol i'r Cynulliad er mwyn hybu'r gwaith o warchod yr organebau byw a'r mathau o gynefin a gaiff eu cynnwys mewn unrhyw restr a gaiff ei chyhoeddi dan yr adran hon, neu
b) annog eraill i gymryd camau o'r fath.

(4) Rhaid i'r Cynulliad, wrth ymgynghori â Chyngor Cefn Gwlad Cymru:

a) barhau i adolygu unrhyw restr a gaiff ei chyhoeddi dan yr adran hon,
b) diwygio unrhyw restr o'r fath mewn modd sy'n ymddangos yn briodol i'r Cynulliad,
c) cyhoeddi unrhyw restr a gaiff ei diwygio yn y fath fodd cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol ar ôl iddi gael ei diwygio.

Mae 'Rhestr Adran 42' yn cynnwys y cynefinoedd a'r rhywogaethau sydd o'r pwysigrwydd pennaf ar gyfer gwarchod bioamrywiaeth yng Nghymru. Mae'n rhestr gyfeirio allweddol ar gyfer pob corff statudol ac anstatudol sy'n ymwneud â gweithrediadau sy'n effeithio ar fioamrywiaeth yng Nghymru.

Mae'n amlwg bod Adran 42 Deddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig yn ymwneud â bioamrywiaeth yn unig. Wrth lunio a diwygio'r rhestr, ni chyfeirir at fuddiannau eraill (e.e. buddiannau masnachol neu fuddiannau economaidd-gymdeithasol). Gellid ystyried materion ehangach wrth hybu'r gwaith o warchod y rhywogaethau a'r cynefinoedd sydd yn y rhestr, ond ni ellir gwneud hynny wrth lunio'r rhestr.

Roedd yr atodiad technegol i'r papur a oedd yn cynnig ychwanegu ffridd, a gyflwynwyd i Grŵp Llywio Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru ym mis Tachwedd, yn dilyn y fformat a ddefnyddiwyd gan y Cydbwyllgor Gwarchod Natur yn ei adolygiad diwethaf o'r cynefinoedd â blaenoriaeth sydd yng Nghynllun Gweithredu Bioamrywiaeth y DU. Felly, mae'r Cyngor Cefn Gwlad o'r farn y dylai'r wybodaeth hon fod yn ddigonol i wneud penderfyniad ynghylch pwysigrwydd pennaf y cynefin ar gyfer gwarchod bioamrywiaeth yng Nghymru. Mae'r Cyngor Cefn Gwlad hefyd o'r farn y dylai ychwanegiadau newydd at y rhestr gael eu hystyried yn unol â'r meini prawf a ddefnyddiwyd i lunio'r rhestr bresennol.

Nid yw cynnwys cynefinoedd neu rywogaethau yn y rhestr yn golygu y caiff y cynefinoedd a'r rhywogaethau eu gwarchod yn uniongyrchol rhag cael eu difrodi neu'u colli, ac oherwydd hynny nid yw'n arwain at unrhyw oblygiadau uniongyrchol o ran cost. Defnyddir y rhestr i arwain y sawl sy'n gwneud penderfyniadau – megis cyrff cyhoeddus, gan gynnwys awdurdodau lleol – i weithredu eu dyletswydd dan Adran 40 wrth gyflawni eu swyddogaethau arferol. Er enghraifft, bydd awdurdodau cynllunio lleol yn defnyddio'r rhestr i adnabod y rhywogaethau a'r cynefinoedd y mae angen rhoi ystyriaeth benodol iddynt wrth ymdrin â chynllunio a rheoli datblygu, a gellir defnyddio'r rhestr i gynllunio'n strategol a chynllunio ar gyfer y dyfodol. Gellir ei defnyddio i hyrwyddo gwaith rheoli cadwraeth ac i flaenoriaethu camau gweithredu dan amryw gynlluniau cyllido.

Ni ddylai rhestru ecosystem (neu gasgliad o gynefinoedd sy'n gysylltiedig â'i gilydd) yn hytrach na chynefin unigol fod yn broblem, gan fod y rhestr eisoes yn cynnwys

dwy enghraifft o'r fath: cors bori ar arfordir a gorlifdir, a chynefinoedd brithwaith agored ar dir a ddatblygwyd yn flaenorol.

Byddai rhestru ffridd yn gynefin Adran 42 yn esgor ar lawer o fanteision allweddol ar wahân i gydnabyddiaeth ar unwaith o bwysigrwydd y cynefinoedd a'r rhywogaethau sy'n rhan ohoni:

- Byddai'n cyfrannu at sicrhau bod Cymru yn cyflawni ei dyletswyddau dan ddeddfwriaeth Ewropeaidd. Er enghraifft, mae Erthygl 3 y Gyfarwyddeb Adar yn rhoi dyletswydd ar Lywodraeth Cymru i warchod ffridd gan ei bod yn cynnwys cadarnleoedd pwysig o ran cynefin (o safbwynt amrywiaeth ac ardal) i rywogaethau adar gwyllt.
- Byddai'n sicrhau mwy o ffocws ar waith ymchwil a chynnal arolygon. Er enghraifft, byddai mapio ffridd yn well yn darparu gwybodaeth ar gyfer yr adolygiad parhaus o Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig, yn enwedig gan fod ffridd yn darparu cynefin bwydo pwysig y tu hwnt i ffiniau Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig presennol ar gyfer llawer o nodweddion yr Ardaloedd hynny o ran adar.
- Byddai'n cynyddu ymwybyddiaeth o bwysigrwydd ffridd mewn cyd-destun cynllunio er mwyn atal gwaith datblygu amhriodol.
- Byddai'n caniatáu ar gyfer datblygu a gweithredu gorchmynion rheoli priodol o fewn Glastir a chynlluniau amaeth-amgylcheddol yn y dyfodol.

Mae'r risgiau sy'n gysylltiedig â pheidio â chodi ymwybyddiaeth o'r ecosystem bwysig hon yn cynnwys y canlynol:

- Methu â chydymffurfio â'r Gyfarwyddeb Adar trwy golli cynefin bwydo ar gyfer rhywogaethau Atodiad 1 y Gyfarwyddeb Adar. Mae adar ysglyfaethus yr ucheldir a brain coesgoch yn defnyddio parth y ffridd yn helaeth at ddibenion bwydo. Nid yw'r rhan fwyaf o'r parth hwn yn perthyn i safleoedd statudol a warchodir.
- Methu â chydymffurfio â'r Gyfarwyddeb Cynefinoedd trwy golli cynefinoedd Atodiad 1 y Gyfarwyddeb Cynefinoedd. Mae cyfran uchel o lawer o gynefinoedd Atodiad 1 i'w gweld yn y ffridd, ac ni chânt eu gwarchod yn statudol mewn unrhyw fodd.
- Methu â chydymffurfio ag Erthygl 3 y Gyfarwyddeb Adar ac Erthygl 10 y Gyfarwyddeb Cynefinoedd.
- Colli casgliadau o gennau a ffyngau glaswelltir sydd o bwys cenedlaethol a rhyngwladol.
- Colli cynefin sy'n bwysig i rywogaethau adar dan fygythiad, megis y bras melyn, llinos y mynydd a'r troellwr mawr, sydd eu hunain wedi'u cynnwys yn rhestr Adran 42.

## *Pwyntiau y mae angen penderfynu yn eu cylch*

1. Cymeradwyo'r cynnig i ddiwygio rhestr Adran 42 fel y nodwyd yn y papur uchod ac am y rhesymau a nodwyd ym mhapur 05 WPBSG18.

2. Cytuno i gyflwyno’r diwygiad i’r Gweinidog er mwyn iddo ei gymeradwyo’n swyddogol a chymryd camau gweithredu.

**WBPSG19**
**PAPUR 02**
**19 Chwefror 2013**

**Adroddiadau Grwpiau Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru 2012-13: gan gynnwys y Grwpiau Ecosystem[1], y Grŵp Rhywogaethau Anfrodorol Goresgynnol a Grŵp Canlyniad 21**

**Nodyn: Mae Atodiad 1 yn darparu crynodebau o adroddiadau'r grwpiau unigol.**

## Cyflwyniad

Yn ystod 2012-13 bu Grwpiau Ecosystem Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru yn gweithio gyda phartneriaid ar draws Cymru er mwyn:

- adnabod blaenoriaethau o ran bioamrywiaeth yng Nghymru a'u rhannu ar lefel leol ac ar lefel strategol â Llywodraeth Cymru,
- galluogi a chefnogi'r broses o gyflawni camau gweithredu mewn perthynas â bioamrywiaeth ar lawr gwlad,
- darparu cyngor arbenigol ar lefel strategol ac ar lefel leol,
- crynhoi bylchau mewn tystiolaeth ym maes bioamrywiaeth, y gellid llenwi rhai ohonynt trwy gydweithredu â sefydliadau ymchwil Cymru.

Mae'r grwpiau yn darparu cyfleoedd i gynnull arbenigwyr ar fioamrywiaeth yng Nghymru o bob rhan o'r sector cyrff anllywodraethol a'r sector cyhoeddus mewn cyfarfodydd grwpiau ecosystem (cynhelir 2-3 chyfarfod y flwyddyn), ac maent yn cynnwys ymweliadau safle ag ardaloedd â blaenoriaeth neu safleoedd lle gwelir arfer gorau. Maent yn parhau i ddatblygu eu capasiti lle bo hynny'n bosibl, maent yn darparu arbenigedd lleol a chyngor, maent yn dosbarthu ac yn rhannu camau gweithredu â blaenoriaeth ar gyfer pob Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol, ac maent yn cyfrannu at waith strategol, e.e. Prosiect Ymchwil i Fylchau mewn Tystiolaeth Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru. Yn ogystal, bu cadeiryddion ac aelodau'r grwpiau yn darparu sylwadau neu'n cyfrannu yn uniongyrchol i ymgynghoriadau neu geisiadau am wybodaeth. Erbyn hyn mae gwefan Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru, a gafodd ei diweddaru yn 2012, yn galluogi defnyddwyr i ymweld â thudalennau Grwpiau Ecosystem penodol a lawrlwytho data, megis camau gweithredu'n ymwneud ag ardaloedd â blaenoriaeth.
http://www.biodiversitywales.org.uk/cy-GB/Grwpiau-Ecosystemau-a-Rhywogaethau

Mae rhychwant y Grŵp Ecosystem Forol yn eang iawn o'i gymharu â'r Grwpiau Ecosystem ar gyfer Tir a Dŵr Croyw, gan ei fod yn ymdrin â nifer o ecosystemau sy'n amrywio o gynefinoedd a rhywogaethau rhynglanwol morol i gynefinoedd a rhywogaethau benthig ar y môr, gan gynnwys rhywogaethau symudol a'r amgylchedd sy'n eu cynnal. Mae'r dull cyffredinol o ymdrin â chadwraeth forol yn golygu bod angen rheoli gweithgarwch pobl sy'n tarfu ar yr amgylchedd morol, yn hytrach na dylanwadu ar yr amgylchedd ei hun.

[1] Nid yw'r adroddiad hwn yn cynnwys gwybodaeth gan y Grŵp Ecosystem Dŵr Croyw na'r Grŵp Arbenigol ar Rywogaethau, gan na ddarparwyd adroddiad blynyddol gan y naill Gadeirydd na'r llall. Nid yw adroddiad y Grŵp Gorfodi Troseddau yn erbyn Bywyd Gwyllt wedi'i gynnwys yn yr adroddiad hwn, oherwydd darperir y wybodaeth ddiweddaraf yn rheolaidd yng nghyfarfodydd Grŵp Llywio Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru.

Sefydlwyd partneriaeth Grŵp Canlyniad 21 yn 2007 i fynd i'r afael â'r heriau a osodwyd gan Ganlyniad 21 y Strategaeth Amgylcheddol ar gyfer Cymru, sef sicrhau bod safleoedd mewn cyflwr ffafriol. Caiff y grŵp ei gadeirio gan Lywodraeth Cymru, tra caiff y rhaglen waith ei chydlynu a'i chefnogi gan Raglen Safleoedd Arbennig Cyngor Cefn Gwlad Cymru.

Mae'r Grŵp Rhywogaethau Anfrodorol Goresgynnol yn rhoi cyngor i Lywodraeth Cymru ac asiantaethau statudol yng Nghymru ynghylch datblygu, cyflwyno a gweithredu Strategaeth y Fframwaith Rhywogaethau Anfrodorol Goresgynnol ar gyfer Prydain Fawr fel y mae'n berthnasol i Gymru.

Mae cadeiryddion y Grwpiau'n cyfarfod ddwywaith y flwyddyn i gyfnewid profiad ac arfer gorau, trafod cyfleoedd i weithio ar y cyd, codi materion a chytuno ar gamau gweithredu ar gyfer y grwpiau (cyfarfodydd Cadeiryddion Grwpiau Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru) http://www.biodiversitywales.org.uk/cy-GB/Grwpiau-Ecosystemau-a-Rhywogaethau

## MEYSYDD GWAITH Â BLAENORIAETH 2012-13

O.N. Yn wahanol i'r arfer, darparwyd Adroddiad Blynyddol y Grwpiau ar gyfer 2011-12 yng nghyfarfod Grŵp Llywio 17 Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru ar 10 Gorffennaf 2012, i gyd-fynd â phrif bapur y Bartneriaeth – Dyfodol Cynllunio Gweithredu Bioamrywiaeth. O ganlyniad i hynny, mae'r adroddiad hwn yn ymdrin yn bennaf â'r cyfnod wedi hynny, rhwng mis Gorffennaf 2012 a mis Ionawr 2013.

## 1. Mapio blaenoriaethau

1.1 Trwy gydol 2012 parhaodd cynrychiolwyr y Grwpiau Ecosystem i ddarparu gweithdai ar lefel leol er mwyn rhannu data'n ymwneud â mapio blaenoriaethau â Phartneriaethau/Rhwydweithiau Bioamrywiaeth Lleol. Yn y gogledd-ddwyrain cyfarfu Grŵp Ecosystem Gweundir a Glaswelltir yr Iseldir â'r rhwydwaith bioamrywiaeth rhanbarthol (Rhwydwaith Bioamrywiaeth Gogledd-ddwyrain Cymru) http://www.facebook.com/NEWBioNet. Un o brif amcanion y gweithdy oedd cefnogi'r cynlluniau pori posibl yn y gogledd-ddwyrain, ac ers hynny mae wedi datblygu'n brosiect a ariannwyd gan y Gronfa Cryfder ac Amrywiaeth Ecosystemau. Nid oes ardaloedd â blaenoriaeth wedi'u diffinio eto gan y Grwpiau Ecosystem ar gyfer Dŵr Croyw, Coetir, Ardaloedd Trefol a Gwlyptir, er bod cynnydd da wedi'i wneud gan y Grŵp Ecosystem Gwlyptir. Mae'r Grŵp Ecosystem Ardaloedd Trefol yn aros i DEFRA gwblhau'r diffiniad a'r canllawiau ar gyfer 'Cynefin brithwaith agored ar dir a ddatblygwyd yn flaenorol' ac mae'n cefnogi'r gwaith o'u datblygu. Bydd y canllawiau'n galluogi awdurdodau lleol i fapio'r cynefin, a bydd yn galluogi'r Grŵp Ecosystem Ardaloedd Trefol i ddiffinio blaenoriaethau strategol ar gyfer y cynefin hwn yng Nghymru i'w rhannu â Chynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol. Fodd bynnag, yn y cyfamser, darparwyd cyflwyniadau ar waith y Grŵp Ecosystem Ardaloedd Trefol a Thir Llwyd ac ar ecosystemau trefol i Gynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol Caerffili, Sir Gaerfyrddin, Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot, ac i Rwydwaith Bioamrywiaeth Gogledd-ddwyrain Cymru. Cafwyd ymateb da iawn i'r gweithdai, ac roeddent yn gyfle i gael trafodaeth agored ynghylch sut y gallai camau gweithredu gael eu cyflawni ar lefel leol.

1.2 Mae rhyngwyneb newydd System Wybodaeth Ddaearyddol y System Adrodd ar Weithredu Bioamrywiaeth yn rhoi mynediad uniongyrchol i ddefnyddwyr i fap pob ardal â blaenoriaeth a'r crynodebau cysylltiedig, sy'n amlinellu pwysigrwydd pob ardal a'r camau gweithredu sy'n ofynnol er mwyn adfer a rheoli'r cynefin â

blaenoriaeth. Yn ogystal, darperir manylion am brosiectau'r Gronfa Cryfder ac Amrywiaeth Ecosystemau a ariannwyd gan Lywodraeth Cymru yn ystod 2012 (gweler y Grŵp Ecosystem Arfordirol).
http://ukbars.defra.gov.uk/

1.3 Mae Fforwm Bywyd Gwyllt Môn ar hyn o bryd yn cynnal ymarfer gyda phartneriaid y Fforwm er mwyn nodi prosiectau cydweithredol o fewn yr ardaloedd â blaenoriaeth, y gellir eu hychwanegu at gynllun integredig yr ynys.

1.4 Ar ôl ymgynghori â Thîm Cymorth Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru, mae'r cynllun Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE) ar gyfer AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy erbyn hyn yn cynnwys yr ardaloedd â blaenoriaeth yng nghynllun rheoli'r AHNE a'r crynodebau cysylltiedig. Hoffem ymgysylltu ymhellach â phob AHNE yn ystod 2013, a hwyluso'r gwaith o gynnwys ardaloedd â blaenoriaeth yng nghynlluniau rheoli pob AHNE.

1.5 Cytunir y caiff yr holl ardaloedd â blaenoriaeth yng Nghymru eu hadolygu'n flynyddol, gan ystyried unrhyw wybodaeth neu ddata arolygon newydd. Mae meithrin cydberthnasau da â Chynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol yn sicrhau bod y cysylltiad rhwng camau gweithredu lleol a chamau gweithredu strategol yn gryf ac y caiff unrhyw ddata newydd ynghylch ardaloedd â blaenoriaeth ei rannu.

## 2. Y Gronfa Cryfder ac Amrywiaeth Ecosystemau

2.1 Cyfrannodd y Grwpiau Ecosystem o'u harbenigedd a rhoesant ymrwymiad sylweddol o ran amser er mwyn cynorthwyo ac asesu ceisiadau am gyllid Cryfder Ecosystemau yn 2012, a noddir gan Lywodraeth Cymru. Darparodd y grwpiau banel cyllid er mwyn asesu a chymeradwyo'r rhestr derfynol o brosiectau a gaiff eu cyllido. Roedd y prosiectau llwyddiannus yn cynnwys y canlynol:

Y Grŵp Ecosystem Gwlyptir: rhaglen fawr o lenwi ffosydd draenio yn Ffridd Uchaf, Eryri; gwaith ffensio i alluogi anifeiliaid i bori ar Gors Coed Cae
Grŵp Ecosystem Gweundir a Glaswelltir yr Iseldir: cynllun pori Gogledd-ddwyrain Cymru; Astudiaeth Ddichonoldeb Cysylltedd Arfordirol Llŷn; Codio DNA Capiau Cwyr Glaswelltir; Ymchwil i Gynefin Bwydo'r Frân Goesgoch; Arfordir Calchfaen Gŵyr. Prosiectau eraill sydd o fudd i weundiroedd neu laswelltiroedd yr iseldir: Adfer Gorlifdir Afon Hafren yn Sir Drefaldwyn; Prosiect Tirwedd De'r Rhondda
Y Grŵp Ecosystem Tir Fferm Amgaeëdig: Cynllun peilot Sir Drefaldwyn i dreialu Arolwg Gwrychoedd y DU
Y Grŵp Ecosystem yr Ucheldir[2]: dim ond un prosiect a gafodd ei gyllido, a hynny'n rhannol oherwydd bod y ceisiadau o ansawdd gwael
Y Grŵp Ecosystem Arfordirol: Adnewyddu Twyni Tywod Cam 2; Prosiect Horton Mere, Gŵyr; ymarfer sefydlu gwaelodlin ar gyfer cysylltedd arfordirol
Y Grŵp Ecosystem Forol: dolffiniaid Risso yn y gogledd; swyddogaeth a gwaith adfer riffiau biogenig a lunnir gan *Sabellaria*; gwerth cynefinoedd morol sensitif o ran cynhyrchiant pysgodfeydd; morwellt Porthdinllaen – monitro'r modd y caiff y cynefin ei adfer

[2] Ni ddarparwyd unrhyw fanylion, fel yn achos y Grŵp Rhywogaethau Anfrodorol Goresgynnol. Fodd bynnag, gellir cael rhagor o fanylion ynghylch prosiectau a gafodd eu cyllido'n llwyddiannus trwy anfon neges e-bost i'r cyfeiriad canlynol: j.korn@ccw.gov.uk.

Y Grŵp Ecosystem Ardaloedd Trefol: Prosiect Cysylltedd Ecolegol Llynfi Uchaf; Cysylltedd Taith Taf. Prosiectau eraill sydd o fudd i'r amgylchedd trefol: Ailgysylltu Dreigiau De Cymru; Gwlyptiroedd y Mileniwm
Y Grŵp Rhywogaethau Anfrodorol Goresgynnol: cymeradwywyd amryw geisiadau.

2.2 Wrth baratoi ar gyfer cyfleoedd am gyllid yn ystod 2013, mae llawer o grwpiau wrthi'n cefnogi'r gwaith o ddatblygu prosiectau ar draws Cymru. Mae'r Grŵp Ecosystem Gwlyptir yn sefydlu 'Is-grŵp prosiectau a chyllid' yn 2013. Cafwyd rhai sylwadau ynghylch ansawdd y ceisiadau a ddaeth i law – a oedd yn amrywiol. Mae angen gwneud rhagor o waith i sicrhau bod ceisiadau'n cael eu paratoi'n dda, a bod prosiectau'n cael eu cynllunio a'u bod yn barod i'w defnyddio wrth i gyfleoedd am gyllid godi.

## 3. Bylchau mewn tystiolaeth

3.1 Cyfrannodd y Grwpiau Ecosystem at Brosiect Bylchau mewn Tystiolaeth/Ymchwil Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru, gan gyflwyno bylchau mewn tystiolaeth i'w hystyried gan brosiectau academyddion Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru a fynychodd y cyfarfod llwyddiannus a gynhaliwyd ym mis Medi 2012 yn yr Amgueddfa Genedlaethol, Caerdydd. Mae un prosiect, sef gwaith i ddiffinio dalgylchoedd gwlyptir, wedi'i fabwysiadu gan aelod o'r Grŵp (Gareth Farr), a dylai gael ei gwblhau'n fewnol - mae hynny'n gamp sylweddol. Mae llawer o weithgareddau ymchwil allweddol eisoes yn cael eu cefnogi trwy'r Gronfa Cryfder ac Amrywiaeth Ecosystemau. Mae'r Grwpiau'n awyddus i ehangu eu cysylltiadau â'r sector academaidd. Mae'r Grwpiau wedi cymryd camau pellach i flaenoriaethu bylchau mewn tystiolaeth, ac mae Arweinydd Prosiect o bob Grŵp wedi'i benodi ar gyfer prosiectau penodol. Mae'r Arweinwyr Prosiect yn darparu ffurflen Cynnig Prosiect Ymchwil ar gyfer pob prosiect. Gall sefydliadau ymchwil o Gymru weld Cynigion Prosiectau Ymchwil trwy wefan a rennir, a gallant chwilio am gynigion ar gyfer prosiectau ymchwil addas. Bydd arweinwyr adrannau ac arweinwyr prosiectau yn gweithio gyda'i gilydd i symud prosiectau yn eu blaen. Cynhelir cyfarfod dilynol ar gyfer y Gweithdy i Academyddion ym mis Chwefror, a gwahoddir grŵp llai o academyddion i'r cyfarfod hwnnw er mwyn cytuno ar y modd y byddwn yn datblygu Prosiect Ymchwil Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru ymhellach.

## 4. Ymateb i ymgynghoriadau a galwadau am wybodaeth:

Mae'r Grwpiau wedi bod yn gweithio'n annibynnol a gyda'i gilydd i ymateb i gyfres o ymgynghoriadau a cheisiadau am wybodaeth yn ystod 2012-13, gan gynnwys rhai'n ymwneud â'r canlynol: 'Cyfoeth Naturiol Cymru'; 'y Fframwaith Bioamrywiaeth Arfaethedig i Gymru'; 'Bylchau mewn Tystiolaeth Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru'; ac 'Adolygiad Comisiwn y Gyfraith o'r Gyfraith ynghylch Bywyd Gwyllt'. Erbyn hyn, mae'r Grŵp Rhywogaethau Anfrodorol Goresgynnol yn ystyried sut y gallai canlyniadau o adolygiad Comisiwn y Gyfraith gyfrannu i Fil yr Amgylchedd. Mae'r broses o gyfrannu i raglen Cymru Fyw wedi parhau.

## 5. Meysydd Gwaith Ychwanegol

### 5.1 Rhannu gwybodaeth yn ehangach am flaenoriaethau Cymru o ran bioamrywiaeth.

Y Grŵp Ecosystem Arfordirol: Mae'r gwaith adleoli twyni tywod wedi creu cyfleoedd i gael cyhoeddusrwydd: ymddangosodd erthyglau yng nghyhoeddiadau Natur Cymru, British Wildlife a Chymdeithas Edward Llwyd; lluniwyd taflen hyrwyddo gan y Cyngor

Cefn Gwlad; cafodd prosiect adleoli Cynffig sylw ar raglen ‘Costing the Earth’ Radio 4, a chafodd sylw hefyd mewn pennod o ‘Restoration of Coastal Dunes’, 2013.

Aelodau o Grwpiau Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru: Buont hwythau’n cyflwyno ac yn hwyluso gweithdai yng nghynhadledd Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru yn 2012.

Grŵp Canlyniad 21: Cafodd ymarfer i wella gwaith adrodd ynghylch cynnydd wrth gyflawni mesurau Cynlluniau Rheoli Basn Afon ei gwblhau mewn pryd i fodloni dyddiadau cau’r Fframwaith Dŵr Ewropeaidd ar gyfer cyflwyno adroddiadau. Parhaodd gwaith ar y cynllun peilot i’w gwneud yn bosibl i waith adrodd ynghylch llwyddiannau ar safleoedd (camau gweithredu) gyfrannu’n (lled-)awtomatig i System Adrodd ar Weithredu Bioamrywiaeth 2 o’r Gronfa Ddata o Gamau Gweithredu, er mwyn gallu cofnodi eu cyfraniad hwy i’r Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth hefyd. Cynhaliwyd dau weithdy i ddod â staff lleol Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru, Comisiwn Coedwigaeth Cymru a’r Cyngor Cefn Gwlad ynghyd i adnabod camau gweithredu â blaenoriaeth er mwyn cyflawni mesurau Cynlluniau Rheoli Basn Afon ar safleoedd Natura 2000. Mae cyfarfodydd wedi’u cynnal ac mae cynnydd wedi’i wneud o ran adnabod materion ar lefel strategol a mynd i’r afael â hwy, e.e. llygredd aer o bellter, a Chynllun Drafft Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru ar gyfer y Strategaeth Llygredd Gwasgaredig.

Y Grŵp Rhywogaethau Anfrodorol Goresgynnol: Gwnaed cynnydd o ran blaenoriaethu asesiad risg ac archwiliad ar gyfer Cymru o safbwynt Rhywogaethau Anfrodorol Goresgynnol. Bu’r Grŵp yn ymgysylltu’n weithredol ynghylch amryw faterion a nodwyd gan Fwrdd Rhaglen Prydain Fawr, gan gynnwys y ddarpariaeth o ran hyfforddiant ar draws Prydain Fawr, cynlluniau gweithredu ar gyfer rhywogaethau goresgynnol, amryw rybuddion, ailgyflwyno afancod, ac ecsbloetio rhywogaethau anfrodorol goresgynnol er budd masnachol. Mae cydberthnasau gweithio effeithiol wedi’u cynnal â DEFRA a Llywodraeth yr Alban trwy Ysgrifenyddiaeth Rhywogaethau Anfrodorol Prydain Fawr, sy’n mynychu pob un o gyfarfodydd Llywodraeth Cymru ynghylch Rhywogaethau Anfrodorol Goresgynnol er mwyn darparu cyd-destun a gwybodaeth ychwanegol i aelodau’r grŵp ar lefel y DU a’r Undeb Ewropeaidd.

Y Grŵp Ecosystem Ardaloedd Trefol a Thir Llwyd: Mae Cadeirydd y Grŵp yn aelod o’r gweithgor Systemau Draenio Trefol Cynaliadwy i Gymru a Grŵp Llywio Llywodraeth Cymru ar gyfer gweithredu’r Gyfarwyddeb Ewropeaidd ar Sŵn Amgylcheddol. Yn y ddau achos, rhoddwyd cyngor ynghylch y gwasanaethau ecosystem ehangach a ddarperir gan fannau gwyrdd trefol sydd wedi’u dynodi ar gyfer dŵr trefol, ac ynghylch rheoli sŵn mewn ardaloedd trefol.

## 5.2 Cynlluniau gwaith a rhaglenni

Grŵp Ecosystem yr Ucheldir: Cynhyrchodd y Grŵp gynllun gwaith a oedd yn canolbwyntio ar ganlyniadau.
Grŵp Ecosystem Gweundir a Glaswelltir yr Iseldir: Trodd y Grŵp y cynllun gweithredu gwreiddiol yn gynllun gwaith blynyddol.
Y Grŵp Ecosystem Coetir: Adolygwyd cynllun gweithredu’r Grŵp. Mae rhaglen waith ar gyfer 2013/14 wrthi’n cael ei pharatoi.
Y Grŵp Rhywogaethau Anfrodorol Goresgynnol: Diwygiwyd cylch gorchwyl y Grŵp. Gwnaed cynnydd da mewn perthynas â chynllun gwaith y Grŵp ar gyfer 2012-2014.
Grŵp Canlyniad 21: Cynigiwyd y dylai Grŵp Canlyniad 21 gael ei gynnwys yn y Gweithgor Cadwraeth Natur a Natura 2000 (bydd angen cytuno ar y cylch gorchwyl a’r cynllun gwaith).

## Y MATERION Y NODWYD Y BYDD ANGEN EU HYSTYRIED YN 2012-13

### 1. Cymorth i Grwpiau

1.1 Adroddodd Grwpiau Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru ynghylch y materion canlynol yn ystod 2011; nid yw'r materion hyn wedi'u datrys o hyd yn 2013. Mae Grŵp Llywio Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru yn gofyn am gamau gweithredu i fynd i'r afael â'r materion hyn.

- Yn aml mae cynrychiolaeth y Grwpiau'n dal yn annigonol ar gyfer eu diben.
- Ceir pryderon eang ar draws pob Grŵp ynghylch lefelau adnoddau'r grwpiau yn awr ac yn y dyfodol; caiff yr holl aelodau gweithredol eu llethu gan waith sy'n ymwneud â'u swyddi pob dydd; nid yw bod yn aelod o grwpiau ecosystem wedi'i nodi mewn disgrifiadau swydd, ac yn aml nid yw sefydliadau'r cynrychiolwyr yn ei ystyried yn flaenoriaeth.

1.2 Newidiadau mewn grwpiau, dyfodol ansicr, yn enwedig ar gyfer y Grŵp Ecosystem Forol. Mae Grŵp Llywio Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru yn gofyn am gamau gweithredu i gefnogi parhad y Grŵp Ecosystem Forol yn llawn, fel grŵp cynghori ynghylch bioamrywiaeth morol ar gyfer rhwydweithiau llywodraeth a bioamrywiaeth lleol, gan fod grwpiau eraill yn gweithredu ynghylch materion sy'n ymwneud â bioamrywiaeth tir a dŵr croyw.

1.3 Mae aelodau'r Grŵp Ecosystem Forol yn rhoi o'u harbenigedd a'u hamser yn wirfoddol i Lywodraeth Cymru, ond nid ydynt yn cael fawr ddim ymateb gan Lywodraeth Cymru. A all Grŵp Llywio Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru gytuno ar gylch cyfathrebu penodol ar gyfer y Grŵp Ecosystem Forol a Llywodraeth Cymru?

1.4 Fel y nodwyd yn y gweithdy diweddar i Gadeiryddion Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru ac yn adroddiad diwethaf y Cadeiryddion ar gyfer 2011-12, nid oes gan Gadeiryddion ac aelodau Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru yr awdurdod ar hyn o bryd i ofyn i'w sefydliadau gyflawni'r camau gweithredu sy'n codi trwy Bartneriaeth Bioamrywiaeth Cymru. Mae cyflawni'r camau gweithredu yn dibynnu ar gytundeb, cymorth a chapasiti sefydliadau partner, a'r adnoddau sydd ar gael. Mae'r sefyllfa hon yn peri rhwystredigaeth, ac yn aml mae'n arwain at lefelau ymateb anghyson ar draws sefydliadau partner; mewn rhai achosion caiff camau gweithredu eu gohirio am amser hir neu byddant yn parhau heb eu cwblhau. Mae Cadeiryddion Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru yn disgwyl i Fframwaith Bioamrywiaeth Cymru a Strategaeth Fioamrywiaeth Cymru, sydd yn yr arfaeth, fynd i'r afael â'r mater hwn a'i wella.

### 2. Materion penodol i gynefinoedd

2.1 Cynnig bod ffridd yn gynefin Adran 42 (y Grŵp Ecosystem Tir Fferm Amgaeëdig).

2.2 Problemau parhaus ynghylch llunio data gwaelodlin ar gyfer gwrychoedd, perllannau ac ymylon caeau âr er mwyn mapio blaenoriaethau ar draws Cymru (y Grŵp Ecosystem Tir Fferm Amgaeëdig).

2.3 Llosgi: cynhaliwyd cyfarfod â Llywodraeth Cymru a'r Gwasanaethau Tân ac Achub yn ystod gaeaf 2011/2012 er mwyn dod o hyd i ffyrdd o fynd i'r afael â'r broblem barhaus sy'n ymwneud â gwaith llosgi nad oes modd ei reoli. Cafwyd cynnydd sylweddol yn nifer yr achosion o losgi yn ystod gwanwyn 2012, ac roedd

rhai o'r achosion hynny'n niweidiol iawn a bu iddynt effeithio ar brosiectau adfer cynefinoedd a oedd yn mynd rhagddynt. Mae angen i Lywodraeth Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru gymryd camau pellach (Grŵp Ecosystem Gweundir a Glaswelltir yr Iseldir).

2.4 Gan gydnabod sefyllfa enbyd cynefin gweundir mynyddig yng Nghymru, mae gweithgor wedi ei adfywio i weithio ar gamau gweithredu a fydd yn diogelu'r adnodd sy'n bodoli eisoes yng Nghymru (Grŵp Ecosystem yr Ucheldir).

## BLAENORIAETHAU YN 2013/14

Darperir gwybodaeth fanwl yn adroddiad unigol pob Grŵp (gweler Atodiad y Papur hwn) ac mae ar gael ar http://www.biodiversitywales.org.uk/cy-GB/Grwpiau-Ecosystemau-a-Rhywogaethau a gan Ysgrifenyddiaeth pob Grŵp (cysylltwch â Thîm Cymorth Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru). Ceir detholiad o flaenoriaethau gwaith isod:

Y Grŵp Ecosystem Tir Fferm Amgaeëdig: Bwriedir edrych ar ffermio sydd o Werth Mawr i Natur dan y Rhaglen Fonitro a Gwerthuso sydd ar ddod ar gyfer Glastir.

Grŵp Ecosystem Gweundir a Glaswelltir yr Iseldir: Mae angen gwneud rhagor o waith i droi copi drafft cychwynnol ar gyfer Gweundir yr Iseldir yn ganllawiau ac yn gamau gweithredu, dan Brosiect Integreiddio Rhywogaethau Cynefin. Caiff y gwaith o integreiddio rhywogaethau ei ystyried yn elfen hanfodol o'r dull gweithredu sy'n seiliedig ar ecosystemau, felly mae angen dod o hyd i amser er mwyn symud y gwaith hwn yn ei flaen ar gyfer cynefinoedd gweundiroedd a glaswelltiroedd.

Y Grŵp Ecosystem Coetir: Adolygiad o dargedau'r Rhestr Goedwigaeth Genedlaethol ar gyfer cynefinoedd coetir, ac ardaloedd o goetir hynafol (yn y Rhestr Coetiroedd Hynafol).

Y Grŵp Ecosystem Forol: Cymeradwyodd y Grŵp y dull o osod targedau ac adnabod camau rheoli ar gyfer cynefinoedd a rhywogaethau Adran 42. Mae angen rhoi sylw pellach i'r maes gwaith hwn yn ystod 2013.

Caiff gweithdai camau gweithredu â blaenoriaeth eu cynllunio ar gyfer nifer o Gynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol yn 2013.

**Y CAMAU GWEITHREDU Y GOFYNNIR AMDANYNT:** *Mae angen i'r Grŵp Llywio ofyn i Lywodraeth Cymru gytuno i wneud y canlynol:*

**1. Codi proffil gwaith Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru:**

- **1.1 ar draws pob sector o'r gwaith y mae Llywodraeth Cymru yn ei gyflawni**
- **1.2 trwy lythyrau cylch gorchwyl partneriaid Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru, a'u grantiau partneriaeth, sy'n nodi rôl pob partner o safbwynt cyflawni camau gweithredu Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru. Dylai'r partneriaid gynnig digon o ddarpariaeth yn rhaglenni gwaith aelodau Grwpiau Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru i fodloni ymrwymiadau gofynnol y Grwpiau;**
- **1.3 trwy Fframwaith Bioamrywiaeth Cymru a Strategaeth Fioamrywiaeth Cymru a gynigir gan y Llywodraeth ac y mae Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru yn eu croesawu.**

2. **Cefnogi parhad y Grŵp Ecosystem Forol yn llawn, fel grŵp cynghori ynghylch bioamrywiaeth morol ar gyfer rhwydweithiau llywodraeth a bioamrywiaeth lleol, gan fod grwpiau eraill yn gweithredu ynghylch materion sy'n ymwneud â bioamrywiaeth tir a dŵr croyw.**

Tracey Lovering
Ymgynghorydd Ecosystemau Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru
28 Ionawr 2013

**WBPSG19**
**Papur 02: ATODIAD 01**
**28 Ionawr 2013**
**ADRODDIADAU YNGHYLCH CYNNYDD GRWPIAU PARTNERIAETH BIOAMRYWIAETH CYMRU 2012-13**

---

## Y GRŴP ECOSYSTEM FOROL

Mae rhychwant y Grŵp Ecosystem Forol yn eang iawn o'i gymharu â'r Grwpiau Ecosystem ar gyfer Tir, gan ei fod yn ymdrin â nifer o ecosystemau sy'n amrywio o gynefinoedd a rhywogaethau rhynglanwol morol i gynefinoedd a rhywogaethau benthig ar y môr, gan gynnwys rhywogaethau symudol a'r amgylchedd sy'n eu cynnal. Mae'r dull cyffredinol o ymdrin â chadwraeth forol yn golygu bod angen rheoli gweithgarwch pobl sy'n tarfu ar yr amgylchedd morol, yn hytrach na dylanwadu ar yr amgylchedd ei hun. Er mwyn darparu ar gyfer hynny, mae targedau'r Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth wedi'u hadolygu i sicrhau eu bod yn cyd-fynd â'r cysyniad bod rheoli gweithgareddau pobl yn ddull mwy effeithiol o warchod bioamrywiaeth. Mae'r gwaith hwn yn dal i fynd rhagddo yn y Grŵp.

### 1. Trosolwg

Rhoddodd Blaise Bullimore y gorau i'w swydd fel Cadeirydd y grŵp yng nghyfarfod mis Mawrth 2012. Roedd wedi bod yn cyflawni'r rôl dros dro nes bod y grŵp yn canfod Cadeirydd mwy parhaol. Cytunodd Paul Brazier a Gill Bell i ymgymryd â swydd y Cadeirydd ar y cyd am y tro.

Mae dyfodol y grŵp yn dal i beri pryder, yn enwedig gan fod Llywodraeth Cymru wedi awgrymu yn ystod 2012 y gallai'r Grŵp Ecosystem Forol gael ei chwalu ac y gallai grŵp lefel uchel mwy strategol gymryd ei le. Ni chafodd yr awgrym hwn fawr o groeso gan yr aelodau, sy'n parhau i fynychu cyfarfodydd er nad oes cynrychiolwyr o Lywodraeth Cymru yn eu mynychu ac er gwaethaf ansicrwydd am ddyfodol y grŵp. Bu i'r aelodau a oedd yn bresennol ailadrodd y ffaith eu bod yn cytuno bod gwerth mewn parhau â'r grŵp hwn.

Fodd bynnag, ceir pryder o hyd am newidiadau arfaethedig i gylch gorchwyl y grŵp. Cytunodd yr aelodau mai prif swyddogaeth y Grŵp Ecosystem Forol yw bod yn grŵp cynghori yn hytrach nag yn grŵp cyflawni. Gall aelodau unigol gyfrannu at waith cyflawni yn eu rhinwedd eu hunain wrth gwrs. Fodd bynnag, nid yw'r Grŵp Ecosystem Forol fel grŵp wedi'i rymuso i weithredu fel partneriaeth gyflawni, ac nid oes ganddo chwaith y capasiti i wneud hynny. Mae'r aelodau wedi mynegi rhwystredigaeth ynghylch y ffaith nad ydynt yn cael fawr ddim ymateb gan Lywodraeth Cymru er iddynt roi gwybodaeth yn ddiwyd a rhoi o'u hamser yn wirfoddol i ymdrin â sawl mater sy'n gysylltiedig â'r Grŵp Ecosystem Forol. Mae hynny ar ben canfyddiad yr aelodau nad yw Llywodraeth Cymru yn gwerthfawrogi gwaith y Grŵp Ecosystem Forol, ac mae ewyllys da bron ar ben.

Roedd 11 o gyfranogwyr yn bresennol yng nghyfarfod y Grŵp Ecosystem Forol ym mis Tachwedd, a phrif eitemau'r agenda oedd y wybodaeth ddiweddaraf gan Bartneriaeth Bioamrywiaeth Cymru, prosiectau'r Gronfa Cryfder ac Amrywiaeth Ecosystemau, a'r gweithdy i academyddion. Cafwyd trafodaeth bellach am y daenlen bylchau mewn tystiolaeth, a chwblhawyd proses flaenoriaethu y cytunwyd arni.

### 2. Y daenlen Bylchau mewn Tystiolaeth

Bu aelodau'r Grŵp Ecosystem Forol yn gweithio ar y papur bylchau mewn tystiolaeth ar gyfer Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru. Amlygodd hynny'r ffaith bod diffyg tystiolaeth yn ein dealltwriaeth o ecosystemau morol, mai ychydig o ddata gwaelodlin sydd ar gael, bod bylchau mawr mewn setiau data presennol, ac mai ychydig o ddealltwriaeth sydd o

swyddogaethau a gwasanaethau ecolegol. Mae hynny'n dangos y diffyg blaenoriaeth a roddir i faterion morol pan fo'r manteision cymdeithasol ac economaidd yn sylweddol. Dyma'r pwyntiau a godwyd yng nghyfarfod y Grŵp Ecosystem Forol:

- Mae pob bwlch mewn tystiolaeth yn cynrychioli maes gwaith eang sydd wedi'i grynhoi o restr fanylach yn gynnar yn y broses. Bydd angen rhannu'r bylchau yn ddarnau llai o faint er mwyn datblygu rhaglen ymchwil.
- Ceir bylchau sylweddol o ran gwaith arolygu a monitro, nad ydynt wedi'u cynnwys yn y blaenoriaethau ymchwil.
- Gallai'r bylchau mewn ymchwil fod yn adlewyrchu diffyg gwaith dosbarthu ymchwil presennol.
- Byddai darlun gwell o ba ymchwil sydd wedi'i wneud eisoes yn cynorthwyo'r broses o ddatblygu dealltwriaeth o fylchau mewn tystiolaeth.
- Mae'r daenlen anghenion o ran tystiolaeth yn cynnwys rhywfaint o wybodaeth o gronfa ddata Camau Gweithredu'r Cyngor Cefn Gwlad, ond mae'n bwysig integreiddio ffrydiau gwaith rhwng yr asiantaethau, gan gynnwys y gronfa ddata Camau Gweithredu a gwaith creu cynefinoedd Asiantaeth yr Amgylchedd.

**3. Cynefinoedd a rhywogaethau Adran 42**

Cymeradwyodd yr aelodau'r dull o osod targedau ac adnabod camau rheoli ar gyfer cynefinoedd a rhywogaethau Adran 42. Mae angen rhoi sylw pellach i'r maes gwaith hwn yn y dyfodol.

**4. Blaenoriaethau ar gyfer y dyfodol i'r Grŵp Ecosystem Forol**

Roedd cynnwys yr agenda ym mis Tachwedd yn adlewyrchu'r gweithgareddau presennol sy'n defnyddio arbenigedd aelodau'r Grŵp Ecosystem Forol. Mae ysgrifenyddiaeth Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru wedi nodi bod gweithredu lleol yn faes y dylid ei ddatblygu ymhellach. Fodd bynnag, nid oes gan Gynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol arbenigedd ym maes yr amgylchedd morol, sy'n golygu bod llunio camau gweithredu lleol yn anodd iawn neu'n amhosibl. Teimlir bod brwdfrydedd ac awydd i ychwanegu camau gweithredu morol at Gynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol, ond nad oes llawer o gapasiti i wneud hynny. Mae angen cymorth sylweddol ar swyddogion Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol, ar ffurf swyddog llawn amser, i helpu i ysgrifennu a deall y Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol a'u rhoi ar waith. Byddai arweiniad ychwanegol a thempled yn helpu'r broses hon. Yn yr un modd, gall canlyniadau trafodaethau cyfarfodydd Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol helpu'r Grŵp Ecosystem Forol i ddatblygu anghenion pellach o ran tystiolaeth a thargedau'r Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth. Ers i Aethne adael y Cyngor Cefn Gwlad, nid oes capasiti wedi bod ar gael i gefnogi'r Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol i weithredu yng nghyswllt y môr.

Yn yr un modd â Grwpiau Ecosystem eraill, ceir bwlch ar hyn o bryd nes bydd Adolygiad Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru wedi'i gwblhau. Bydd y Grŵp yn parhau i symud ymlaen â'i weithgareddau presennol.

**5. Y wybodaeth ddiweddaraf am brosiectau'r Gronfa Cryfder ac Amrywiaeth Ecosystemau**

| **Teitl y prosiect** | **Perchennog y prosiect** |
|---|---|
| Dolffiniaid Risso yn y gogledd | Y Gymdeithas Gwarchod Morfilod a Dolffiniaid |
| Swyddogaeth a gwaith adfer riffiau biogenig a lunnir gan *Sabellaria* | Prifysgol Bangor |

| | |
|---|---|
| Gwerth cynefinoedd morol sensitif o ran cynhyrchiant pysgodfeydd | Prifysgol Abertawe |
| Morwellt Porthdinllaen – monitro'r modd y caiff y cynefin ei adfer | Cyngor Gwynedd |

5.1 ACA Pen Llŷn a'r Sarnau - prosiect morwellt Porthdinllaen

• Treuliwyd llawer o amser ar waith ymgysylltu â rhanddeiliaid. Mae deunydd cyhoeddusrwydd ar gael bellach – taflen, mat diodydd, poster a nodyn briffio. Cynhaliwyd sesiwn galw heibio ym mis Rhagfyr 2012 i roi cyfle i bobl gymryd rhan / dysgu mwy. Cynhelir cyfarfodydd o'r grŵp llywio. Rydym wedi bod yn siarad â grwpiau ac unigolion yn ystod yr ychydig fisoedd diwethaf. Mae nifer o fusnesau lleol yn ymwneud â'r prosiect bellach.
• Prosiect ecolegol Ehangu Sectorau Arfordirol a Morol Cymwysedig mewn Dull Cynaliadwy (SEACAMS) - mae'r prosiect hwn wedi hen ddechrau. Gwelwyd bod rhywogaethau pysgod ifanc yn defnyddio'r gwely morwellt a bod nifer ohonynt yn rhywogaethau masnachol. Bydd SEACAMS yn ymchwilio'n fuan ar ein rhan i'r posibilrwydd o gael llwybr glannau creigiog a snorcelio.
• Prosiect eco-angorfeydd SEACAMS – mae'r prosiect hwn wedi dechrau. Caiff dau ddull eu harchwilio - defnyddio system eco-angorfeydd ac addasu systemau presennol fel eu bod yn cael llai o effaith (e.e. 5 ffordd o addasu eich angorfa am lai na £50). Rydym wedi cysylltu ag ACA Forol Sir Benfro ar gyfer y rhan hon o'r prosiect. Caiff cynlluniau peilot eu cynnal yn y ddau leoliad.
• Prosiect y Gronfa Cryfder ac Amrywiaeth Ecosystemau – mae'r prosiect hwn wedi hen ddechrau. Mae'r ochr ymarferol wedi'i chwblhau. Cynhaliwyd 6 diwrnod o blymio, ac arolygwyd 31 o angorfeydd a 4 safle rheoli. Caiff adroddiad ei lunio erbyn mis Chwefror 2013. Mae'r prosiect hwn wedi'i gofrestru bellach ar y System Adrodd ar Weithredu Bioamrywiaeth.
• Y Gronfa Datblygu Cynaliadwy (AHNE Llŷn) - rydym wedi llwyddo i gael cyllid gan y Gronfa Datblygu Cynaliadwy.
• Mae'r arolwg isfilodol wedi'i gynnal. Mae angen dadansoddi'r samplau craidd yn awr. Mae adroddiad yr arolwg ar gael.
• Mae nifer o fyfyrwyr yn cynnal prosiectau yn y bae – e.e. creithiau angorfeydd, arolygon pysgod ac ati.
• Mae Asiantaeth yr Amgylchedd yn gobeithio cynnal arolwg acwstig o'r bae yn 2013.
• Rydym yn gysylltiedig hefyd â phrosiect Cronfa Cryfder ac Amrywiaeth Ecosystemau SEACAMS – sy'n ymwneud â gweithio gyda chamerâu ag abwyd. Gwely morwellt Porthdinllaen yw un o leoliadau'r arolwg.
• Mae erthygl wedi'i chyflwyno i gylchgrawn Seagrass-Watch, a dylai ymddangos yn y rhifyn nesaf.

http://www.penllynarsarnau.co.uk/projects.aspx?lang=pages&id=19
(Alison Palmer Hargrave, Swyddog ACA Pen Llŷn a'r Sarnau)

5.2 Gwerth o ran Cynhyrchiant Pysgodfeydd

Mae'r tymor arolygu wedi dod i ben, ac mae anhawster gweld ymhell dan y dŵr a thywydd gwael wedi amharu'n barhaus ar y gwaith. Mae datblygiadau wedi'u gwneud o ran y dechneg ac mae'r dadansoddiadau yn mynd rhagddynt. Mae'r prosiect yn datblygu'n dda, ac mae nifer o fforestydd môr-wiail a dolydd morwellt wedi'u samplu â'r system BRUV. Mae angen o hyd mynd ar rai teithiau samplu byr pellach i Aberdaugleddau. Cymerwyd samplau o welyau Modiolus, ond ychydig o waith casglu data a wnaed oherwydd nifer o amgylchiadau anffodus (tywydd gwael, anafiadau i staff, ceryntau cyflym iawn yn rholio camerâu, anhawster gweld ymhell). Mae'n annhebygol y gwneir rhagor o waith casglu data

ar y gwelyau hyn. Mae anhawster gweld ymhell a phroblemau a achoswyd gan forloi wedi amharu ar waith samplu morwellt yn Sgomer.

5.3 Swyddogaeth a gwaith adfer riffiau biogenig a lunnir gan *Sabellaria*

Mae'r don gyntaf o awyrluniau a data System Wybodaeth Ddaearyddol wrth grwydro wedi'i chwblhau. Mae trawsluniau parhaol wedi'u sefydlu ar gyfer monitro riffiau'n barhaus ym mhob safle, ac mae llawer iawn o waith cofnodi data cwadratau wedi'i wneud hefyd. Mae'r catalog larfâu wedi'i gwblhau. Mae twf esbonyddol wedi'i fesur wedi'i gofnodi yn ystod yr ychydig ddiwrnodau cyntaf o ffrwythloni. Llwyddwyd i sicrhau bod larfâu > 4 wythnos oed yn ymsefydlu ar 30 o deils llechi unigol 50mm x 50mm. Rydym yn monitro ffurfiant twf tiwbiau dan amodau defnydd gronynnol mewn daliant sy'n cyfateb i Uchel (200mg/l), Isel (50mg/l) a Dim o gwbl (<10mg/l). Mae ffurfiant tiwbiau sylweddol wedi'i gofnodi yn ystod wythnos gyntaf yr arbrawf ac mae wedi parhau. Bydd teils llechi mawr (100mm x 100mm) y llwyddir i gael larfâu i ymsefydlu arnynt yn cael eu lleoli mewn safleoedd yn ystod misoedd y gaeaf. Mae'r gwaith o arsylwi dulliau o wanhau tonnau ar y blaen i'r amserlen, a cheir stoc fawr o dolpiau Plastr Paris i'w defnyddio ynghyd â cherrig crynion wedi'u rhifo/lliwio ar gyfer mapio'r llif.

5.4 Dolffiniaid Risso yn y gogledd

Canlyniadau rhagarweiniol:
- 116 o oriau ar y tir o waith yn ymwneud â'r trawslun ar 23 diwrnod
- 93 achos ar y tir o weld 135 o lamidyddion yn ystod gwaith yn ymwneud â'r trawslun
- 1 achos ar y tir o weld 6 dolffin Risso a 5 dolffin trwyn potel yn ystod gwaith yn ymwneud â'r trawslun
- 14 achos o weld 34 o lamidyddion y tu allan i waith yn ymwneud â'r trawslun
- 13 achos o weld 43 o ddolffiniaid Risso y tu allan i waith yn ymwneud â'r trawslun
- 1 achos o weld 5 dolffin trwyn potel y tu allan i waith yn ymwneud â'r trawslun
- 4.5 awr o wylio oddi ar gwch ar 2 ddiwrnod
- 1 achos ar gwch o weld 30+ o ddolffiniaid cyffredin
- 1 achos ar gwch o weld 10+ o ddolffiniaid Risso a 2 ddolffin cyffredin.

Yn ogystal, ymddengys ein bod eisoes wedi gweld un o'r dolffiniaid Risso a welsom y llynedd unwaith eto eleni, ond mae angen o hyd i ni fynd drwy bob un o'r 362 o luniau a dynnwyd i gadarnhau hynny a gweld a oes unrhyw achos arall o weld yr un dolffin unwaith eto. Ymddengys fod y tywydd wedi bod yn wael iawn, felly ni fu modd iddynt wneud cymaint o waith maes ag yr oeddent wedi gobeithio ei wneud.

**Gill Bell, Cyd-gadeirydd y Grŵp Ecosystem Forol (gyda Paul Brazier)**

---

## Y GRŴP ECOSYSTEM COETIR

Mae'r Grŵp Ecosystem Coetir wedi cyfarfod deirgwaith ers yr adroddiad diwethaf. Disgwylir i'r Rhestr Goedwigaeth Genedlaethol gael ei chyhoeddi eleni, a bydd y grŵp yn adolygu'r targedau ar gyfer cynefinoedd coetir i Gymru. Bydd yr ardal ar gyfer y targedau coetiroedd hynafol yn y cynefinoedd yn cael ei hadolygu hefyd pan gaiff fersiwn ddiwygiedig y Rhestr Goedwigaeth Genedlaethol ei chyhoeddi.

Mae'r grŵp yn parhau i gyfrannu at ddatblygu canllawiau ar gyfer cynllun Creu Coetir Glastir a chynllun Rheoli Coetir Glastir. Mae'r cyfarwyddyd i reolwyr contractau ynghylch gweithredu yng nghyswllt rhywogaethau coetir â blaenoriaeth yn cael ei adolygu ar hyn o bryd fel ei fod yn cynnwys gweithredu gofodol, ac mae'r grŵp yn cyfrannu at y datblygiad hwn. Bydd

hynny'n dylanwadu ar y gwaith o ddehongli'r cyfarwyddyd ar gyfer Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol a rheolwyr coetiroedd eraill.

Mae aelodau'r grŵp wedi bod yn hybu cyfleoedd dan gynllun Creu Coetir Glastir a chynllun Rheoli Coetir Glastir i reolwyr bioamrywiaeth lleol, drwy fforymau eraill y maent yn ymwneud â hwy. Mae'r grŵp wedi cyfrannu'n sylweddol at ailddylunio'r gwaith mapio cyfleoedd ar gyfer cynlluniau creu coetir.

Dyma'r materion sy'n uchel ar agenda'r grŵp:

- Gwireddu manteision o ran bioamrywiaeth coetir drwy gynlluniau grant
- Rhywogaethau anfrodorol goresgynnol
- Darparu cyngor a chyfarwyddyd i'r sawl sy'n cyflawni'n lleol
- Rheoli coetiroedd sy'n cynnwys Rhywogaethau dan Warchodaeth Ewropeaidd.

Mae'r grŵp yn dal yn awyddus i hybu amcanion strategol a chyfarwyddyd i'r sawl sy'n cyflawni'n lleol, ac i ddysgu o brofiad y grwpiau ecosystem eraill o gynnal gweithdai cyflawni lleol. Mae cyngor wedi'i roi i Gynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol ynghylch gwaith blaenoriaethu a ffynonellau data, felly ceir angen yn bendant.

Mae cynllun gweithredu'r grŵp wedi'i adolygu ac mae rhaglen waith yn cael ei pharatoi er mwyn hybu gwaith cyflawni yn ystod 2013/14.

**Chris Tucker, Cadeirydd y Grŵp Ecosystem Coetir**

---

## Y GRŴP ECOSYSTEM GWLYPTIR

Mae'r Grŵp Ecosystem Gwlyptir yn ymdrin â phedwar o gynefinoedd gwlyptir yr iseldir (cyforgors, ffen, corsle gwlyb a chors bori), enghreifftiau ar yr iseldir o orgors, a rhywogaethau â blaenoriaeth sy'n dibynnu ar y cynefinoedd hyn.

Mae gweithio gyda Chynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol yn parhau'n thema bwysig, ac mae gweithdai wedi'u cynllunio ar gyfer nifer o Gynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol yn ystod 2013. Parheir i gefnogi prosiect rhestr gwlyptiroedd Gwynedd (yn enwedig Llŷn).

Gwnaed llawer o ymdrech i gefnogi ac asesu ceisiadau am gyllid Cryfder Ecosystemau, a noddir gan Lywodraeth Cymru. Mae'r prosiectau a fu'n llwyddiannus yn ystod 2012 yn cynnwys rhaglen fawr o lenwi ffosydd draenio yn Ffridd Uchaf yn Eryri, a gaiff ei harwain gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, a gwaith ffensio i alluogi anifeiliaid i bori ar Gors Coed Cae, gan Ymddiriedolaeth Natur De a Gorllewin Cymru. Bydd y grŵp yn parhau i ddatblygu prosiectau ledled Cymru a bydd yn sefydlu 'Is-grŵp prosiectau a chyllid' yn 2013.

Bu'r grŵp yn cyfrannu at brosiect Cydlynu Ymchwil Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru, gan gyflwyno prosiectau a mynychu'r cyfarfod llwyddiannus a gynhaliwyd ym mis Medi 2012 yn yr Amgueddfa Genedlaethol, Caerdydd. Mae un prosiect, sef gwaith i ddiffinio dalgylchoedd gwlyptir, wedi'i fabwysiadu gan aelod o'r Grŵp (Gareth Farr), a dylai gael ei gwblhau'n fewnol – mae hynny'n gamp sylweddol.

Mae'r grŵp yn bwriadu gorffen gwaith ar y prosiect mapio blaenoriaethau eleni!

Mae llawer o waith y grŵp wedi'i wneud gan lond llaw o unigolion. Mae angen gwella capasiti'r grŵp er mwyn gallu gwneud gwaith mwy dwys ar draws llwyfan ehangach.

**Peter Jones, Cadeirydd y Grŵp Ecosystem Gwlyptir**

---

## GRŴP ECOSYSTEM GWEUNDIR A GLASWELLTIR YR ISELDIR

### Cyflawniadau

**1. Mapio blaenoriaethau**
Mae pob map a chrynodeb wedi'u cwblhau, a bydd gwaith diweddaru blynyddol yn cael ei gyflawni ar 22 Tachwedd 2012.

**Cynnydd mewn Ardaloedd â Blaenoriaeth**

i Prosiect Anifeiliaid Pori Ynys Môn 2. Ail gam y prosiect yn ehangu gwaith rheoli safleoedd ac yn parhau i ddatblygu'r farchnad gynnyrch gyda'r grŵp o ffermwyr. Datblygu cynllun peilot i ddefnyddio deunydd gwastraff gweundir fel gwellt ar gyfer stoc ar Ynys Môn a Llŷn.

ii Partneriaeth Tirwedd Llŷn. Rheoli safleoedd gan gynnwys cyflwyno pori gan wartheg. Datblygu grŵp marchnata cynnyrch. Datblygu cynllun peilot i ddefnyddio deunydd gwastraff gweundir fel gwellt ar gyfer stoc ar Ynys Môn a Llŷn. Bu arian o'r Gronfa Cryfder ac Amrywiaeth Ecosystemau yn cefnogi astudiaeth ddichonoldeb ar gyfer prosiect cysylltedd gweundir arfordirol.

iii Cafwyd arian ar gyfer cynllun pori Gogledd-ddwyrain Cymru drwy'r Gronfa Cryfder ac Amrywiaeth Ecosystemau er mwyn datblygu gwaith ar safleoedd a chynllun marchnata.

iv Prosiect 'Achub ein Dolydd Gwych'. Caiff ei gefnogi gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri. Cafwyd arian ar gyfer y flwyddyn ddatblygu. Roedd y prosiect yn canolbwyntio ar safleoedd glaswelltir corsiog yng Ngheredigion a Gogledd Sir Gaerfyrddin.

v Bu Cronfa Cryfder ac Amrywiaeth Ecosystemau Arfordir Gŵyr yn cefnogi gwaith prynu peiriannau er mwyn bwrw ymlaen â gwaith rheoli gweundir a phrysgwydd a nodwyd gan bartneriaid yn 2011.

**2. Y Gronfa Cryfder ac Amrywiaeth Ecosystemau**
Cynhaliwyd cyfarfod llwyddiannus o'r is-banel er mwyn dewis prosiectau posibl. Mynychodd y Cadeirydd gyfarfod panel y Gronfa Cryfder ac Amrywiaeth Ecosystemau lle gwnaed y penderfyniad terfynol am brosiectau. Bydd y prosiectau canlynol yn cyfrannu at gyflawni amcanion y grŵp mewn Ardaloedd â Blaenoriaeth:

- Codio DNA Capiau Cwyr Glaswelltir – Prifysgol Aberystwyth
- Ymchwil i Gynefin Bwydo'r Frân Goesgoch – Y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar (RSPB)
- Arfordir Calchfaen Gŵyr – Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol
- Cynllun Pori Gogledd-ddwyrain Cymru – Pont
- Astudiaeth Ddichonoldeb Cysylltedd Arfordirol Llŷn – Cyngor Sir Gwynedd

Dyma'r prosiectau eraill a fydd o fantais i weundiroedd neu laswelltiroedd yr iseldir:

- Adfer Gorlifdir Afon Hafren – Sir Drefaldwyn

- Prosiect Tirwedd De'r Rhondda

**3. Gweithdai Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Leol**
Cynhaliwyd gweithdy gyda phartneriaeth Gogledd-ddwyrain Cymru ym mis Ebrill 2012. Un o brif nodau'r gweithdy oedd cefnogi'r cynlluniau pori posibl yng ngogledd-ddwyrain Cymru, sydd ers hynny wedi datblygu'n brosiect a ariannwyd drwy'r Gronfa Cryfder ac Amrywiaeth Ecosystemau.

**4. Cynllun gwaith**
Mae'r grŵp wedi troi'r Cynllun Gweithredu gwreiddiol yn Gynllun Gwaith Blynyddol a gaiff ei ddiweddaru ar 22 Tachwedd 2012.

**5. Ymchwil**
Nododd y grŵp fylchau mewn ymchwil, a gafodd eu cyfrannu i'r Gweithdy i Academyddion ym mis Medi. Mae nifer o weithgareddau ymchwil allweddol eisoes yn cael eu cefnogi drwy'r Gronfa Cryfder ac Amrywiaeth Ecosystemau, ond hoffai'r grŵp ymestyn ei gysylltiadau â'r sector academaidd.

**Heriau**

**1. Gwaith Integreiddio Rhywogaethau**
Mae'r grŵp wedi cwblhau drafft cychwynnol ar gyfer Gweundir yr Iseldir, ond mae angen gwneud rhagor o waith i'w droi'n gyfarwyddyd ac yn gamau gweithredu. Caiff y gwaith o integreiddio rhywogaethau ei ystyried yn elfen hanfodol o'r dull gweithredu sy'n seiliedig ar ecosystemau, felly mae angen dod o hyd i amser i symud y gwaith hwn yn ei flaen ar gyfer cynefinoedd gweundiroedd a glaswelltiroedd.

**2. Llosgi**
Cynhaliwyd cyfarfod â Llywodraeth Cymru a'r Gwasanaethau Tân ac Achub yn ystod gaeaf 2011/2012 er mwyn dod o hyd i ffyrdd o fynd i'r afael â'r broblem barhaus sy'n ymwneud â gwaith llosgi nad oes modd ei reoli. Er y gwnaethpwyd rhywfaint o gynnydd, yn enwedig o ran darparu gwybodaeth well i'r Gwasanaethau Tân ac Achub, cafwyd cynnydd sylweddol yn nifer yr achosion o losgi yn ystod gwanwyn 2012, ac roedd rhai o'r achosion hynny'n niweidiol iawn a bu iddynt effeithio ar brosiectau adfer cynefinoedd a oedd yn mynd rhagddynt. Mae angen i Lywodraeth Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru gymryd camau pellach i fynd i'r afael â gwaith llosgi grug a glaswellt.

**Jan Sherry, Ysgrifenyddiaeth Grŵp Ecosystem Gweundir a Glaswelltir yr Iseldir**

---

**GRŴP ECOSYSTEM YR UCHELDIR**

Yn ystod 2012, bu Grŵp Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru ar gyfer yr Ucheldir yn canolbwyntio ar gael cynllun gwaith i'r grŵp sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau, er mwyn iddo allu bwrw ymlaen â'i waith mewn modd y gellir ei fesur ac sydd â ffocws.

Gan gydnabod sefyllfa enbyd cynefin gweundir mynyddig yng Nghymru, bu'r grŵp yn annog gweithgor a oedd wedi dod i ben i ailddechrau er mwyn gweithio ar gamau gweithredu a fydd yn cyflawni mesurau cadarnhaol ar lawr gwlad i ddiogelu'r adnodd sy'n bodoli eisoes yng Nghymru.

Gwahoddodd grŵp yr Ucheldir nifer o academyddion o Gymru i ymgysylltu â'r grŵp, er mwyn ceisio cefnogi ac annog ymchwil a fydd yn cyfrannu at gadwraeth sy'n seiliedig ar

dystiolaeth, a allai fod o fantais i fioamrywiaeth yr ucheldir. Hyd yma, mae bylchau mewn tystiolaeth a blaenoriaethau o ran ymchwil wedi'u nodi.

Bu is-grŵp yn asesu tri chais a gyflwynwyd am gyllid Cronfa Cryfder ac Amrywiaeth Ecosystemau Llywodraeth Cymru. Cyflwynwyd un cais i'r prif banel a llwyddodd i gael cyllid. Roedd yr is-grŵp asesu yn gobeithio y byddai ceisiadau o ansawdd gwell yn cael eu cyflwyno mewn unrhyw rowndiau yn y dyfodol o gyllid gan Gronfa Cryfder ac Amrywiaeth Ecosystemau Llywodraeth Cymru.

Yn ystod rhan olaf y flwyddyn bu grŵp yr Ucheldir yn adolygu'r cynnig i ddatblygu Fframwaith Bioamrywiaeth Cymru, a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru, ac er ei fod yn cefnogi'r syniad a oedd yn sail i'r cynnig, cododd y grŵp nifer o faterion oherwydd bod ganddo bryderon difrifol ynghylch y dull gweithredu arfaethedig a gâi ei gynnig.

Cydnabu'r grŵp na lwyddodd i gynnal y cyfarfodydd rhanbarthol yr oedd wedi'u cynllunio ar gyfer 2012, ac mae'n bwriadu unioni'r sefyllfa yn 2013 drwy geisio cynnal un cyfarfod yn y gogledd ac un arall yn y de.

**Charles Morgan, Cadeirydd Grŵp Ecosystem yr Ucheldir**

---

## Y GRŴP ECOSYSTEM ARDALOEDD TREFOL A THIR LLWYD

### Cyflawniadau

### 1. Mapio blaenoriaethau

Mae'r Grŵp Ecosystem Ardaloedd Trefol wedi bod yn gweithio gyda chontractwyr DEFRA, sef Exegesis, i gefnogi prosiect mapio cynefinoedd brithwaith agored ar dir a ddatblygwyd yn flaenorol, sydd wedi'i ymestyn i Gymru. Nod hynny yw treialu defnydd o'r meini prawf a ddatblygwyd gan DEFRA yn 2010. Roedd y prosiect hwn yn cynnwys astudiaeth ddesg a rhywfaint o waith maes, a bu'r gwaith maes yn enwedig yn canolbwyntio ar safleoedd sy'n llawn infertebratau. Oherwydd camddealltwriaeth yn DEFRA, mae angen £2,000 ychwanegol ar y prosiect i'w alluogi i weithredu'n llawn yng Nghymru, ac mae cais yn cael ei gyflwyno am y cyllid ychwanegol hwn yn alldro'r Cyngor Cefn Gwlad.

Llwyddodd Buglife i gael cyllid gan WREN ar gyfer Prosiect Cerrig Camu Tir Llwyd Gorllewin Morgannwg. Yn ogystal â gwneud gwaith rheoli ar ystod o safleoedd, bydd y prosiect hwn hefyd yn helpu awdurdodau lleol i fapio eu cynefinoedd brithwaith agored ar dir a ddatblygwyd yn flaenorol, gan ddefnyddio meini prawf DEFRA.

Gobeithir y gallwn ddechrau datblygu ardaloedd â blaenoriaeth pan fydd gan y grŵp fap gwell o'r adnodd cynefinoedd brithwaith agored ar dir a ddatblygwyd yn flaenorol.

### 2. Prosiectau'r Gronfa Cryfder ac Amrywiaeth Ecosystemau

Darparodd y grŵp aelodau ar gyfer yr Is-banel at ddiben dewis prosiectau trefol posibl ar gyfer cyllid y Gronfa, ac roedd y Cadeirydd yn aelod o'r Panel lle gwnaed y penderfyniad terfynol. Cafodd dau brosiect trefol gyllid:

- Prosiect Cysylltedd Ecolegol Llynfi Uchaf - Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
- Cysylltedd Taith Taf - Ymddiriedolaeth Groundwork

Er gwaethaf rhai problemau â threfniadau anfonebu, mae'r ddau brosiect yn symud ymlaen fel y bwriadwyd ac maent yn disgwyl cyflawni eu gwaith yn brydlon.

Prosiectau eraill a fydd o fantais i'r amgylchedd trefol yw:

- Ailgysylltu Dreigiau De Cymru – Yr Ymddiriedolaeth Gwarchod Amffibiaid ac Ymlusgiaid
- Gwlyptiroedd y Mileniwm – Yr Ymddiriedolaeth Adar Dŵr a Gwlyptiroedd

**3. Ymchwil**
Mae'r grŵp wedi nodi ei flaenoriaethau o ran ymchwil, ac anfonodd gynrychiolydd i Weithdy Academyddion Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru.

**4. Cyswllt â Chynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol**
Ers mis Chwefror 2012, mae'r cadeirydd wedi darparu cyflwyniadau ar waith y grŵp ac ar ecosystemau trefol i Gynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol Caerffili, Sir Gaerfyrddin, Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot, ac i Rwydwaith Bioamrywiaeth Gogledd-ddwyrain Cymru.

**5. Ymgynghoriadau a chyswllt â grwpiau eraill**
Ymatebodd y Grŵp Ecosystem Ardaloedd Trefol i'r ymgynghoriad ynghylch Cyfoeth Naturiol Cymru.

Mae'r cadeirydd yn aelod o'r gweithgor Systemau Draenio Trefol Cynaliadwy i Gymru a grŵp llywio Llywodraeth Cymru ar gyfer gweithredu'r Gyfarwyddeb Ewropeaidd ar Sŵn Amgylcheddol. Yn y ddau achos, rhoddwyd cyngor ynghylch y gwasanaethau ecosystem ehangach a ddarperir gan fannau gwyrdd trefol sydd wedi'u dynodi ar gyfer dŵr trefol, ac ynghylch rheoli sŵn mewn ardaloedd trefol.

**Heriau**

**1. Mapio**
Er bod gwaith mapio'n digwydd gyda phrosiectau Exegesis a Buglife yn awr, mae'n annhebygol y bydd y mentrau hyn yn gallu mapio'r adnodd cyfan. Felly, bydd angen rhagor o gyllid i fwrw ymlaen â gwaith mapio mewn ardaloedd eraill. Gobeithir y byddwn yn gallu nodi pa is-haenau o gynefinoedd brithwaith agored ar dir a ddatblygwyd yn flaenorol a gaiff eu cynrychioli waethaf yn y mentrau mapio presennol, a blaenoriaethu gwaith pellach yn yr ardaloedd hynny.

**2. Cynllunio**
Bydd y Grŵp Ecosystem Ardaloedd Trefol yn cymryd rhan mor lawn ag sy'n bosibl yn y gwaith o ddatblygu'r Bil Cynllunio, er mwyn pwysleisio pwysigrwydd hanfodol y modd y mae mannau gwyrdd mewn ardaloedd trefol yn darparu gwasanaethau ecosystem.

**Pete Frost, Cadeirydd y Grŵp Ecosystem Ardaloedd Trefol a Thir Llwyd**

---

## Y GRŴP ECOSYSTEM ARFORDIROL

Mae presenoldeb mewn cyfarfodydd yn dal yn anghyson, er bod presenoldeb yn eithaf da yn ein cyfarfod diwethaf (ar 8 Tachwedd 2012) pan gawsom y pleser o groesawu John Clark (RSPB/Cyswllt Amgylchedd Cymru) ac Alan Kearsley-Evans (Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol). Hwn oedd y tro cyntaf i ni gael cynrychiolydd o'r RSPB. Daeth llawer i gyfarfod maes a gynhaliwyd yng Ngwarchodfa Natur Genedlaethol Cynffig (ar 24 Ebrill 2012) lle'r oedd modd i'r grŵp weld yn uniongyrchol y gwaith a wneir i adleoli twyni tywod a chreu llaciau twyni.

Mae'r grŵp yn parhau i wneud cynnydd cyson. Mae'r pwyntiau canlynol yn cwmpasu rhai o'r mentrau pwysicaf:

**Gweithdy Academyddion Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru – cyfraniad y Grŵp Ecosystem Arfordirol**

Mynychodd Angus Garbutt weithdy Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru ar ran y Grŵp Ecosystem Arfordirol. Roedd y gweithdy'n cynnwys Llywodraeth Cymru, academyddion ac arbenigwyr ar ecosystemau er mwyn edrych ar fylchau mewn ymchwil a bylchau mewn tystiolaeth. Mae adroddiad wedi'i gyhoeddi a'i ddosbarthu i aelodau'r Grŵp Ecosystem Arfordirol. Mae bylchau mewn tystiolaeth arfordirol wedi'u casglu.

**Cyllid Allanol**

O ran y Gronfa Cryfder ac Amrywiaeth Ecosystemau (Llywodraeth Cymru) cafwyd cyllid ar gyfer tri phrosiect arfordirol:

1. Adnewyddu Twyni Tywod Cam 2.

2. Prosiect Horton Mere, Gŵyr sy'n ceisio gwella cysylltedd a seilwaith pori.

3. Ymarfer sefydlu gwaelodlin ar gyfer cysylltedd arfordirol ar Benrhyn Llŷn.

O ganlyniad i'r arian pellach a ddyrannwyd o'r Gronfa Cryfder ac Amrywiaeth Ecosystemau, mae gwaith adleoli pellach wedi'i ddechrau, neu bydd yn cael ei ddechrau, yng Nghynffig, Merthyr Mawr a Thwyni Brownslade i alluogi gwaith adnewyddu twyni tywod. Mae'r Cyngor Cefn Gwlad yn bwriadu cyhoeddi pob adroddiad a gaiff ei lunio gan yr Athro Ken Pye, sy'n ymdrin ag argymhellion ar gyfer gwaith adleoli ar safleoedd allweddol yng Nghymru. Bydd y rhain ar gael ar wefan y Cyngor Cefn Gwlad hefyd.

Yn yr ardaloedd adfywio, mae gwaith monitro rhywogaethau twyni, llystyfiant ac arolygon topograffig yn parhau. Mae infertebratau sydd â chysylltiad â thwyni tywod wedi'u cofnodi yn yr ardal adfywio, ond mae'n rhy gynnar i ddweud pa mor llwyddiannus fu'r prosiect hwn.

Mae'r gwaith adleoli hefyd wedi creu cyfleoedd i gael cyhoeddusrwydd: ymddangosodd erthyglau yng nghyhoeddiadau Natur Cymru, British Wildlife a Chymdeithas Edward Llwyd, a lluniwyd taflen 'Bringing back sand dunes to life' gan y Cyngor Cefn Gwlad. Cafodd prosiect adleoli Cynffig sylw ar raglen 'Costing the Earth – Sands of Time' Radio 4 a recordiwyd yng Nghynffig. Yn ogystal, mae pennod a ysgrifennwyd gan Peter Rhind, Rod Jones a Laurence Jones yn ymdrin â'r mater hwn yn y llyfr newydd am dwyni tywod: Restoration of Coastal Dunes. 2013. Gol. Martínez, M. Luisa; Gallego-Fernández, Juan B.; Hesp, Patrick A. Springer Series on Environmental Management.

**RSBP Futurescapes**

Rhoddodd John Clark y wybodaeth ddiweddaraf am brosiectau Futurescapes sydd wedi'u cynllunio ar gyfer Cymru: Tair Afon (Gorllewin Cymru), Gwastadeddau Gwent a phrosiect Rhostiroedd Gogledd Cymru. Mae Futurescapes yn bartneriaeth sy'n cynnwys sefydliadau amgylcheddol, cymunedau lleol, busnesau a chyrff y llywodraeth, sy'n ceisio datblygu gweledigaeth ar gyfer cefn gwlad sy'n llawn bywyd gwyllt.

**Y System Adrodd ar Weithredu Bioamrywiaeth**

Mae fersiwn newydd ar gael o'r System Adrodd ar Weithredu Bioamrywiaeth, sy'n ymwybodol o faterion gofodol. Mae haenau mapiau ardaloedd arfordirol â blaenoriaeth wedi'u llwytho ar y system yn awr ynghyd â manylion prosiectau arfordirol y Gronfa Cryfder ac Amrywiaeth Ecosystemau.

**Bylchau mewn Tystiolaeth**
Mae'r canlynol yn parhau'n fylchau mawr mewn tystiolaeth:

**Diffyg arolwg cam II o lystyfiant clogwyni arfordirol i Gymru**
Mae hwn yn parhau'n ofyniad hanfodol, yn anad dim oherwydd nad yw cynefinoedd arfordirol wedi'u cynnwys yn yr Arolwg Cefn Gwlad.

**Cysylltedd cynefinoedd arfordirol / clogwyni glan môr**
Mae angen rhagor o wybodaeth am y ffordd orau o sicrhau dulliau mwy caredig o reoli topiau clogwyni a phentiroedd, yn enwedig mewn safleoedd allweddol megis y clogwyni meddal sydd ym Mhorth Neigwl a'r rhai sydd ar arfordir gogledd Llŷn. Bydd yr astudiaeth ddiweddar o gysylltedd a gyllidwyd gan y Gronfa Cryfder ac Amrywiaeth Ecosystemau ar gyfer Penrhyn Llŷn (gweler uchod) o werth yn hynny o beth.

**Astudiaethau pellach o effaith cynnydd yn lefel y môr ar forfeydd a thraethellau**
Oherwydd y posibilrwydd o "gywasgu arfordirol", mae'r cynefinoedd hyn yn arbennig o agored i effaith cynnydd yn lefel y môr.

**Gwerth Glastir i gynefinoedd arfordirol**
Mae Thomson Ecology wedi'i gomisiynu i fonitro cynnydd, a'r gobaith yw y bydd hynny'n darparu safbwynt arfordirol i'r grŵp.

**Gwybodaeth am effeithiau negyddol ewtroffeiddio ar gynefinoedd arfordirol**
Byddai'n cynnwys pob ffynhonnell o gyfoethogi gan faetholion ond, er enghraifft, gwyddys fod dŵr ffo amaethyddol yn cael effaith yn awr ar gynefinoedd rhynglanwol yn Aberdaugleddau.

**Effaith strwythurau amddiffynfeydd arfordirol**
Gallant effeithio ar lawer o gynefinoedd arfordirol, ond ceir pryder cynyddol bellach bod ein safle gorau yng Nghymru ar gyfer graean bras â llystyfiant (Traeth Pensarn) yn cael ei israddio oherwydd diffyg gwaddodion. Mae'n bosibl y bydd angen rhyw fath o gynllun porthi traeth yn yr achos hwn, ond mae angen asesiad mwy cyffredinol arnom o'r broblem.

**Peter Rhind, Cadeirydd y Grŵp Ecosystem Arfordirol**

---

## Y GRŴP ECOSYSTEM TIR FFERM AMGAEËDIG

**Cyfarfodydd**
Dim ond unwaith y cyfarfu'r grŵp yn ystod 2012. Fodd bynnag, gwnaed cryn dipyn o waith ar dasgau penodol, gwaith ymgynghori ac adborth drwy negeseuon e-bost.

**Y Gronfa Cryfder ac Amrywiaeth Ecosystemau**
Dyfarnwyd grant i Ymddiriedolaeth Natur Maldwyn er mwyn treialu Arolwg Gwrychoedd y DU yn Sir Drefaldwyn. Bu'r grŵp yn ymweld â'r prosiect yn ystod ei gyfarfod ym mis Hydref, ac mae'n bwriadu cynnal gweithdy'n fuan er mwyn cyflwyno'r arolwg ar draws Cymru.

**Ymchwil a Datblygu**
Cafodd y grŵp ei gynrychioli yn y gweithdy i academyddion ym mis Medi, ac mae wedi cyfrannu at waith casglu a blaenoriaethu prosiectau i fyfyrwyr yng Nghymru.

**Materion Presennol**

- Bydd gwybodaeth a ddisgwylir dan elfen fonitro Tir Gofal yn cael ei defnyddio i ddiweddaru haenau Glastir ar gyfer y cynllun Uwch.
- Bwriedir edrych ar ffermio sydd o Werth Mawr i Natur dan y Rhaglen Fonitro a Gwerthuso sydd ar ddod ar gyfer Glastir.
- Cynigir y dylai ffridd fod yn gynefin Adran 42.
- Ceir problemau parhaus ynghylch llunio data gwaelodlin ar gyfer gwrychoedd, perllannau ac ymylon caeau âr er mwyn mapio blaenoriaethau ar draws Cymru.

**Caryn Le Roux, Cadeirydd y Grŵp Ecosystem Tir Fferm Amgaeëdig**

---

**Y GWEITHGOR RHYWOGAETHAU ANFRODOROL GORESGYNNOL**

Planhigion ac anifeiliaid o ranbarthau eraill yn y byd yw rhywogaethau anfrodorol goresgynnol, sydd â'r gallu i amlhau os cânt eu cyflwyno. Maent wedi'u disgrifio fel y bygythiad mwyaf ond un i fioamrywiaeth byd-eang, ar ôl y weithred o golli a dinistrio cynefinoedd, a'r bygythiad mwyaf i ecosystemau bregus megis ynysoedd.

Ffocws y grŵp yw darparu cyngor i Lywodraeth Cymru ac asiantaethau statudol yng Nghymru ynghylch datblygu, cyflwyno a gweithredu Strategaeth y Fframwaith Rhywogaethau Anfrodorol Goresgynnol ar gyfer Prydain Fawr fel y mae'n berthnasol i Gymru. Ein nod cyffredinol yw lleihau'r risgiau a lleihau'r effeithiau negyddol a achosir gan Rywogaethau Anfrodorol Goresgynnol yng Nghymru, drwy adnabod cyfleoedd rheoli mewn partneriaeth ag eraill a cheisio gwireddu'r rhain drwy gydweithio. Rydym yn ceisio helpu i atal rhywogaethau anfrodorol goresgynnol rhag lledaenu mewn nifer o ffyrdd, gan gynnwys trwy gefnogi ymgyrchoedd "Check, Clean, Dry" a "Be Plant Wise" Prydain Fawr.

Cyfarfu'r Gweithgor Rhywogaethau Anfrodorol Goresgynnol ddwywaith yn ystod 2012 - ym mis Chwefror a mis Tachwedd. Ym mis Medi, roedd Rhywogaethau Anfrodorol Goresgynnol yn bwnc trafod yng nghyfarfod Gweinidogion (Amgylchedd) y Cyngor Prydeinig-Gwyddelig a gynhaliwyd yng Nghaeredin. Y prif ganlyniad i'r Grŵp oedd bod DEFRA wedi cynnig ariannu gweithdy o arbenigwyr perthnasol o bob rhan o weinyddiaethau'r Cyngor Prydeinig-Gwyddelig (cynhelir y gweithdy ar 30 Ebrill 2013 yn ôl pob tebyg).

Bu nifer o newidiadau o ran staffio yn ystod 2012, a gyfrannodd at ohirio gwaith ar Rywogaethau Anfrodorol Goresgynnol mewn rhai ardaloedd. Er enghraifft, yn Llywodraeth Cymru, cafodd y cyfrifoldeb am bolisi ar gyfer Rhywogaethau Anfrodorol Goresgynnol ei drosglwyddo i Dîm yr Amgylchedd Naturiol ac Amaethyddiaeth ar 1 Medi 2012.

Mynychodd y Cadeirydd gyfarfodydd rheolaidd o Grŵp Gorchwyl *D. villosus* (y berdysen reibus) a oedd wedi'i gweld mewn dau safle yng Nghymru - Bae Caerdydd ac Eglwys Nunydd. Lluniodd y Grŵp (DEFRA, Llywodraeth Cymru, Asiantaeth yr Amgylchedd, Rhywogaethau Anfrodorol Prydain Fawr, Broads Authority, Natural England) sy'n gyfrifol am oruchwylio a chydlynu ymateb Prydain Fawr i'r rhywogaethau ddatganiad safbwynt er mwyn crynhoi'r rhesymeg a oedd yn sail i'r ymateb. Roedd hynny'n help mawr i'r rhanddeiliaid ddeall dull gweithredu Prydain Fawr. Sicrhaodd Awdurdod Harbwr Caerdydd fod mesurau bioddiogelwch "Check, Clean, Dry" wedi'u nodi yn amodau a thelerau cystadleuaeth Cwpan y Byd Slalom Canŵio a gynhaliwyd yng Nghanolfan Dŵr Gwyn Rhyngwladol Caerdydd. Dangosodd archwiliad bioddiogelwch o Driathlon Tata Steel fod trefniadau bioddiogelwch yn Eglwys Nunydd yn cydymffurfio â'r asesiad risg. Cytunodd Swyddogion Gorfodi Pysgodfeydd Lleol y dylai codi ymwybyddiaeth o *D.villosus* a'r ymgyrch genedlaethol "Check, Clean, Dry" fod yn rhan o'u gwaith gwirio trwyddedau. Cafodd ymchwilydd, a oedd

yn edrych ar waith dilyniannu poblogaethau o ran DNA ac ar wybodaeth am lwybrau goresgynnol, sbesimenau o Fae Caerdydd mewn cysylltiad ag Awdurdod Harbwr Caerdydd, ac fe'u darparwyd i Ganolfan Gwyddorau'r Amgylchedd, Pysgodfeydd a Dyframaethu ar gyfer prosiect bioddiogelwch.

Ym mis Medi, cafodd y Grŵp gadarnhad bod berdysen oresgynnol anfrodorol (*D. haemobaphes*) wedi'i chanfod yn Tewkesbury a Bevere Bridge (Afon Hafren) ac mewn safleoedd ar Gamlas Caerwrangon - Birmingham a Chamlas Swydd Stafford a Swydd Gaerwrangon. Bu'r Grŵp yn gweithio'n effeithiol gyda rhanddeiliaid i fabwysiadu ymateb "Check, Clean, Dry" tebyg i'r ymateb a gafwyd i'r berdysen reibus (*D. villosus*).

Ym mis Hydref, bu'r Grŵp yn cefnogi camau gweithredu gan Asiantaeth yr Amgylchedd (Cymru) i ddileu poblogaeth anfrodorol o'r symlyn safnuchel ym Mharc Arfordirol y Mileniwm, Llanelli.
Ym mis Tachwedd, bu'r Grŵp yn cefnogi camau gweithredu gan Asiantaeth yr Amgylchedd (Cymru) i ddileu'r ffromlys chwarennog a oedd yn bygwth SoDdGA Cors Llyferin yn Aber-soch.

Bu'r Grŵp yn ymgysylltu'n weithredol ynghylch amryw faterion a nodwyd gan Fwrdd Rhaglen Prydain Fawr, gan gynnwys y ddarpariaeth o ran hyfforddiant ar draws Prydain Fawr, cynlluniau gweithredu ar gyfer rhywogaethau goresgynnol, amryw rybuddion (ynghylch y gacynen Asiaidd, briallu'r dŵr, y paracît torchog, nadroedd Esgwlapaidd), ailgyflwyno afancod ac ecsbloetio rhywogaethau anfrodorol goresgynnol er budd masnachol, megis y cranc manegog Tsieineaidd ac wystrysen y Môr Tawel.

Bu'r Grŵp yn ystyried canlyniadau Cam 1 prosiect dileu'r chwistrell fôr anfrodorol *Didemnum vexillum* ym marina Caergybi, gan gefnogi barn Cyngor Cefn Gwlad Cymru ynghylch ailgyfeirio cyllid ac adnoddau at wella bioamrywiaeth a monitro, gan gynnwys adeiladu prototeip o angorfa gwarantin a phontynau hunanlanhau.

Ymatebodd y Grŵp i'r ymgynghoriad a oedd yn dwyn y teitl "Adolygiad Comisiwn y Gyfraith o'r Gyfraith Ynghylch Bywyd Gwyllt yng Nghymru a Lloegr" a oedd yn cynnwys adran sylweddol ar rywogaethau anfrodorol goresgynnol. Bydd y Grŵp yn ystyried sut y gallai canlyniadau o adolygiad Comisiwn y Gyfraith gyfrannu i Fil yr Amgylchedd.

Cyfarfu'r grŵp yn ffurfiol ar 26 Tachwedd 2012, a gwnaed cynnydd da o safbwynt diwygio cylch gorchwyl y Grŵp, llunio cynllun gwaith Rhywogaethau Anfrodorol Goresgynnol ar gyfer 2012-2014, nodi bylchau mewn tystiolaeth, blaenoriaethu asesiad risg o safbwynt Rhywogaethau Anfrodorol Goresgynnol ar gyfer Cymru, cynnal archwiliad o safbwynt Rhywogaethau Anfrodorol Goresgynnol ar gyfer Cymru, a chynnydd o ran yr amryw grantiau Ecosystemau, Cryfder, Amrywiaeth a Chydymffurfio a oedd wedi'u cymeradwyo. Bu'r Grŵp hefyd yn ystyried sylwadau parhaus gan amryw Aelodau'r Cynulliad ynghylch y modd y mae canclwm Japan yn lledaenu ar draws Cymru.

Rhoddodd y Grŵp ystyriaeth gynnar i'r posibilrwydd y gallai fod angen i Strategaeth Rhywogaethau Estron Goresgynnol yr UE fod ar ffurf Cyfarwyddeb Ewropeaidd. Disgwylir i'r Comisiwn Ewropeaidd gyflwyno ei gynigion yn 2013. Cytunodd y Grŵp y dylai'r adolygiad 5 mlynedd o Strategaeth y Fframwaith Rhywogaethau Anfrodorol Goresgynnol ar gyfer Prydain Fawr (a gynhelir yn 2013) aros am eglurhad ynghylch safbwynt y Comisiwn Ewropeaidd.

Mae cydberthnasau gweithio effeithiol wedi'u cynnal â DEFRA, Llywodraeth yr Alban ac Ysgrifenyddiaeth Rhywogaethau Anfrodorol Goresgynnol Prydain Fawr a fynychodd gyfarfod y Grŵp Rhywogaethau Anfrodorol Goresgynnol ym mis Tachwedd er mwyn darparu cyd-destun a gwybodaeth ychwanegol i aelodau'r grŵp ar lefel y DU a'r Undeb Ewropeaidd.

Mae'r Cadeirydd yn cymryd rhan mewn cyfarfodydd misol gydag arweinwyr posibl yn DEFRA a Llywodraeth yr Alban i drafod materion sydd o ddiddordeb i bawb. Mae'r Gweithgor Rhywogaethau Anfrodorol Goresgynnol wedi canolbwyntio yn ystod oddeutu'r flwyddyn ddiwethaf ar ddatblygu rhestr wedi'i blaenoriaethu o gamau gweithredu ar gyfer Rhywogaethau Anfrodorol Goresgynnol yng Nghymru, sy'n cynnwys amgylcheddau'r tir, dŵr croyw a'r môr. Mae fersiwn derfynol ohoni'n cael ei chreu ar hyn o bryd, a chaiff ei chyflwyno i'w chymeradwyo yng nghyfarfod nesaf y Gweithgor Rhywogaethau Anfrodorol Goresgynnol ar 20 Mehefin 2012.

Yn ogystal, mae gwaith pellach wedi'i gyflawni ar yr archwiliad o gamau gweithredu, sydd wedi bod yn mynd rhagddo ers tro. Pan fydd y rhestr wedi'i blaenoriaethu o gamau gweithredu wedi'i chymeradwyo, caiff yr archwiliad o gamau gweithredu ei ailwerthuso a gobeithir y bydd modd dechrau trefnu adnoddau'r Gweithgor Rhywogaethau Anfrodorol Goresgynnol er mwyn cyflawni camau gweithredu mewn modd mwy cydgysylltiedig, gyda'r bwriad o wneud hynny drwy'r dull gweithredu sy'n seiliedig ar ecosystemau.

Mae cydberthnasau gweithio effeithiol wedi'u cynnal â DEFRA a Llywodraeth yr Alban trwy Ysgrifenyddiaeth Rhywogaethau Anfrodorol Prydain Fawr, sy'n mynychu pob un o gyfarfodydd Llywodraeth Cymru ynghylch Rhywogaethau Anfrodorol Goresgynnol er mwyn darparu cyd-destun a gwybodaeth ychwanegol i aelodau'r grŵp ar lefel y DU a'r Undeb Ewropeaidd. Mae'r Cadeirydd hefyd yn cyfarfod yn eithaf anffurfiol ar sail *ad hoc* gydag arweinwyr polisi yn DEFRA a Llywodraeth yr Alban i drafod materion perthnasol.

**David Thomas, Cadeirydd y Gweithgor Rhywogaethau Anfrodorol Goresgynnol**

---

## GRŴP GORCHWYL A GORFFEN CANLYNIAD 21

### Cefndir
Ffurfiwyd Grŵp Canlyniad 21 yn 2007 fel grŵp partneriaeth i fynd i'r afael â'r heriau a osodwyd gan Ganlyniad 21 y Strategaeth Amgylcheddol ar gyfer Cymru, sef sicrhau bod safleoedd mewn cyflwr ffafriol. Caiff y grŵp ei gadeirio gan Lywodraeth Cymru, tra caiff y rhaglen waith ei chydlynu a'i chefnogi gan Raglen Safleoedd Arbennig Cyngor Cefn Gwlad Cymru.

### Gwaith sydd wedi'i gwblhau
Yn ystod 2012 cyfarfu'r grŵp cyfan yn ffurfiol ddwywaith. Cynhaliwyd gweithdai pynciol, is-grwpiau a chyfarfodydd gydol y flwyddyn er mwyn gweithio drwy faterion a chamau gweithredu'n ymwneud â rheoli cadwraeth ar safleoedd ac er mwyn mynd i'r afael â materion ar lefel strategol.

Parhawyd i ddefnyddio'r gronfa ddata o Gamau Gweithredu, a gynhelir gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru, fel offeryn cydweithredu er mwyn rhannu anghenion o ran rheoli cadwraeth a chynllunio camau gweithredu. Cafodd rhaglenni gwaith ar gyfer 2012/2013 eu paratoi a'u rhannu, ac adroddir ynghylch cynnydd bob chwarter ar gyfer y Cyngor Cefn Gwlad, Llywodraeth Cymru, Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru, Comisiwn Coedwigaeth Cymru, yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, RSPB a'r Ymddiriedolaethau Natur.

Cafodd ymarfer i wella gwaith adrodd ynghylch cynnydd wrth gyflawni mesurau Cynlluniau Rheoli Basn Afon ei gwblhau mewn pryd i fodloni dyddiadau cau'r Fframwaith Dŵr Ewropeaidd ar gyfer cyflwyno adroddiadau.

Parhaodd gwaith ar y cynllun peilot i'w gwneud yn bosibl i waith adrodd ynghylch llwyddiannau ar safleoedd (camau gweithredu) gyfrannu'n (lled-)awtomatig i System Adrodd ar Weithredu Bioamrywiaeth 2, er mwyn gallu cofnodi eu cyfraniad hwy i'r Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth hefyd.

Mae gan Reolwyr Contractau Glastir Llywodraeth Cymru fynediad bellach i'r gronfa ddata o Gamau Gweithredu er mwyn eu cynorthwyo wrth iddynt gysylltu â ffermwyr sy'n ymrwymo i gytundebau Glastir ar dir ar safleoedd dynodedig.

**Gweithdai a chyfarfodydd nodedig**
Cyfarfu Grŵp Rheoli Proses Canlyniad 21 Asiantaeth yr Amgylchedd/Cyngor Cefn Gwlad Cymru/Comisiwn Coedwigaeth Cymru deirgwaith. Cynhaliwyd dau weithdy i ddod â staff lleol Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru, Comisiwn Coedwigaeth Cymru a'r Cyngor Cefn Gwlad ynghyd i adnabod camau gweithredu â blaenoriaeth er mwyn cyflawni mesurau Cynlluniau Rheoli Basn Afon ar safleoedd Natura 2000. Mae'n hynod o werthfawr dod â'r tri sefydliad ynghyd i drafod y materion wyneb yn wyneb ar lawr gwlad.

Mae cyfarfodydd wedi'u cynnal ac mae cynnydd wedi'i wneud o ran adnabod materion ar lefel strategol a mynd i'r afael â hwy, e.e. llygredd aer o bellter, a Chynllun Drafft Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru ar gyfer y Strategaeth Llygredd Gwasgaredig.

Mae cyfarfodydd i symud camau gweithredu yn eu blaen ar safleoedd unigol wedi'u cynnal ledled Cymru, e.e. cyfarfod ACA Forol Sir Benfro rhwng y Cyngor Cefn Gwlad/Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru ym mis Tachwedd 2012, safleoedd Rhanbarth y De-ddwyrain, ACA Afon Dyfrdwy, gweithdy ar faterion yn ymwneud â physgodfeydd gyda Llywodraeth Cymru.

**Prosiectau mawr yr ydym yn ymwneud â hwy**
Mae'r Cyngor Cefn Gwlad wedi bod yn llwyddiannus mewn cais am brosiect i ddatblygu rhaglen strategol ar gyfer rheoli ac adfer ACA ac AGA yng Nghymru ar gyfer y cyfnod rhwng 2014 a 2020 a thu hwnt. Dechreuodd y prosiect ym mis Medi 2012 a chaiff ei gwblhau erbyn mis Rhagfyr 2014. Caiff ei flaenoriaethu, caiff ei fanylion eu pennu, a chaiff ei gostio a'i gytuno gan randdeiliaid perthnasol. Mae prosiect LIFE ar gyfer rheoli ac adfer safleoedd Natura 2000 yn ategu'r rhaglen waith hirdymor gyffredinol ar gyfer sicrhau bod safleoedd mewn cyflwr ffafriol (Canlyniad 21), gan ganolbwyntio ar ofynion rheoli safleoedd Ewropeaidd a ffynonellau cyllid posibl.

**Cynllun gwaith 2013**
Cynigir y dylai Grŵp Canlyniad 21 gael ei gynnwys yn y Gweithgor Cadwraeth Natur a Natura 2000 (bydd angen cytuno ar y cylch gorchwyl a'r rhaglen waith).

**Christine Edwards, Ysgrifenyddiaeth Grŵp Canlyniad 21**

---

**WBPSG19**
**PAPUR 03**
**19 Chwefror 2013**

**Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru – Cynllunio a'r gyllideb**

**Lluniwyd gan:** Sean McHugh, Tîm Cymorth Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru

**Cynhadledd Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru 2013**

***Cefndir/Cynnydd***

Mae Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru yn trefnu cynhadledd flynyddol 2 ddiwrnod ar gyfer ymarferwyr sy'n ymwneud â bioamrywiaeth ac ecosystemau yng Nghymru. Mae'r gynhadledd yn gyfle i dynnu sylw at ddatblygiadau yng Nghymru a thu hwnt, rhannu syniadau, rhwydweithio, hybu trafodaeth a pheri i bobl weithredu.

**Dyddiadau: 18 ac 19 Medi 2013**

**Lleoliad:** Gogledd Cymru (Wrecsam neu Fangor)

**Nod:** Trwy sesiynau gyda siaradwyr, gweithdai a chyfranogiad cynrychiolwyr, bydd y gynhadledd yn myfyrio ynghylch y cynnydd a wnaed hyd yma er mwyn cynllunio, gwella ac adeiladu rhwydweithiau ecolegol cydnerth yng Nghymru er budd byd natur a phobl.

Gofynnir am fewnbwn gan Bartneriaeth Bioamrywiaeth Cymru er mwyn datblygu rhaglen y gynhadledd. Caiff drafft o'r thema ac amlinelliad cyffredinol eu cyflwyno er mwyn hwyluso trafodaeth yn y cyfarfod.

Bydd y gynhadledd yn defnyddio mentrau sy'n bodoli eisoes, e.e. Natura 2000, prosiectau Cryfder Ecosystemau, prosiectau gweithgorau Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru, prosiectau partneriaid Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru, enghreifftiau o Gynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol a siaradwyr allanol.

**Thema bosibl:** Datblygu Rhwydweithiau Ecolegol – cynllunio, integreiddio a chyflawni er mwyn Cymru

**Amlinelliad posibl:**

- Gosod y cyd-destun a'r sefyllfa
- Anerchiad gan siaradwr gwadd
- Anerchiad gan Weinidog
- Y wybodaeth ddiweddaraf am gysylltedd a mapio cynefinoedd â blaenoriaeth
- Trafodaeth gan banel

- Ehangu'r ymwneud â sectorau ac agendâu eraill
- Y wybodaeth ddiweddaraf am Gynllunio Adnoddau Naturiol
- Prosiectau rhwydweithiau ecolegol – prosiectau ar raddfa fawr sy'n arddangos dull gweithredu sy'n seiliedig ar ecosystemau; y posibilrwydd o ddysgu oddi wrth fentrau sy'n bodoli eisoes, e.e. Cyfoeth Naturiol Cymru, PONT, Gwarchod Glöynnod Byw, yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, prosiectau consortia academaidd, Tirweddau Byw, Futurescapes ac enghreifftiau allanol, e.e. prosiectau Ardaloedd Gwella Natur (allanol)
- Cynllunio morol
- Seilwaith Gwyrdd a Systemau Draenio Trefol Cynaliadwy
- Prosiectau bioamrywiaeth lleol
- Sesiynau gweithdai (enghreifftiau: bodloni dyheadau Fframwaith Bioamrywiaeth Cymru; cysylltu'r hyn a gyflawnir yn lleol ag uchelgeisiau cenedlaethol; datblygu arbenigedd mewn tacsonomi; rhaglen ynghylch peillwyr; defnyddio gwirfoddolwyr mewn rhaglenni monitro safleoedd cadwraeth; monitro ac adrodd; rhywogaethau anfrodorol goresgynnol; cyfathrebu ynghylch bioamrywiaeth ac ecosystemau ac ati).

Nodyn: Mae trafodion Cynhadledd Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru 2012 ar gael ar wefan Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru, ar http://www.biodiversitywales.org.uk/cy-GB/Cynhadledd-Partneriaeth-Bioamrywiaeth-Cymru

***Camau gweithredu y gofynnir amdanynt***

1. Cytuno ar thema ac amlinelliad cyffredinol ar gyfer y gynhadledd
2. Awgrymu pynciau/siaradwyr/gweithdai
3. Rhannu dyddiadau a lleoliad cynhadledd Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru â'ch cysylltiadau.

***Cyllideb Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru***

***Cefndir/Cynnydd***

Mae cymorth grant y Cyngor Cefn Gwlad ar gyfer gweithgareddau Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru yn 2013/2014 yn cyfateb i £100,000 ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2013 a 31 Mawrth 2014. Costau cyffredinol yw oddeutu 70% o gyllideb Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru (cyflogau, costau cynnal ac ati) a chlustnodir 30% o gyllideb y Bartneriaeth i dalu costau prosiectau.

***Cynllun/Cynigion***

Mae fframwaith cyllideb wedi'i nodi isod er mwyn ei drafod. Gofynnir i Bartneriaeth Bioamrywiaeth Cymru adolygu'r fframwaith a chymeradwyo'r eitemau sydd â chostau sefydlog ac argymell meysydd addas ar gyfer ymdrin â chostau'r prosiectau – rhoddir syniadau ar gyfer prosiectau er mwyn hwyluso'r broses.

| **2013/14** | **Swm** (rhoddir rhagolwg o gyllideb 2012/13 mewn cromfachau) | **Manylion y costau sefydlog ar gyfer 2013/14** |
|---|---|---|
| Cyflog (2 aelod o staff) | **57.6** (56.4) | Cynnydd arfaethedig o 1.5% er mwyn cynorthwyo â chostau chwyddiant (cafwyd y codiad cyflog diwethaf yn 2008) |
| Teithio a chynhaliaeth | **3.6** (3.8) | Mae'n cynnwys costau teithio a chynhaliaeth, costau ffôn symudol ac offer TG |
| Cynnal | **9.0** (9.0) | Y costau a gaiff eu talu am gynnal 2 aelod o staff Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru a darparu gwasanaeth cyfrifyddu a chymorth o ran personél |
| Hyfforddi a datblygu | **1.0** (0.7) | Costau hyfforddi ar gyfer 2 aelod o staff Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru |
| **Is-gyfanswm** | **71.2** (69.9) | |
| | | |
| **Eitemau prosiectau** | | **Eitemau posibl o ran prosiectau ar gyfer 2013/14** |
| System Adrodd ar Weithredu Bioamrywiaeth | **8.0** (10.0) | Camau parhaus i ddatblygu adnodd strategol ar y we ar gyfer cynllunio ac adrodd ynghylch camau gweithredu'n ymwneud â bioamrywiaeth |
| Cynhadledd | **6.2** (5.1) | Cynhadledd flynyddol 2 ddiwrnod |
| Digwyddiadau ac ymwybyddiaeth | **5.8** (5.2) | Wythnos Bioamrywiaeth Cymru; digwyddiadau sy'n gysylltiedig â chynlluniau cofnodi cenedlaethol a chynlluniau'n ymwneud â gwyddoniaeth ymysg dinasyddion (gan gynnwys costau cyfieithu deunyddiau ategol Labordai Awyr Agored); cefnogi digwyddiadau Bioblits; digwyddiad Grŵp Cyfathrebu Bioamrywiaeth Cymru |
| Cefnogi hyfforddiant ar fioamrywiaeth a mentrau gweithgorau Fframwaith Bioamrywiaeth Cymru/ Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru | **7.2** (7.8) | Diwrnodau hyfforddi ynghylch bywyd gwyllt (Canolfannau Cofnodi Lleol) a chymorth i Ganolfannau Cofnodi Lleol; gweithdy asesu hyfforddiant ynghylch bywyd gwyllt; cymorth i weithgorau Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru (mentrau'r grwpiau ecosystemau a rhywogaethau, cydlynu gwaith integreiddio academaidd); cymorth gyda'r Fframwaith Gweithredu Bioamrywiaeth; cymorth gyda'r rhaglen ynghylch peillwyr; hyfforddiant ar gyfer Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol, gan gynnwys seminar y gwanwyn; cydlynu haen Cymru o Safleoedd o Bwysigrwydd |

| | | |
|---|---|---|
| | | ar gyfer Cadwraeth Natur, a chymorth i safleoedd bywyd gwyllt; trefniadau wrth gefn ar gyfer prosiectau er mwyn ymdrin ag unrhyw danwariant |
| Marchnata, cyfarfodydd a chymorth i wirfoddolwyr | **1.1** (1.4) | Gwasanaethu cyfarfodydd, cynorthwyo â threuliau gwirfoddolwyr a deunyddiau hyrwyddo |
| Gwefan | **0.5** (0.6) | Costau cynnal gwefan ac eitemau cymorth *ad hoc* ar gyfer y wefan |
| **Is-gyfanswm** | **28.8** (30.1) | |
| | | |
| **CYFANSWM** | **100.0** | |

***Pwyntiau y mae angen penderfynu yn eu cylch***

1. Adolygu’r fframwaith ar gyfer y gyllideb ac awgrymu unrhyw newidiadau y mae angen eu gwneud
2. Awgrymu meysydd prosiect addas er mwyn clustnodi cyllid Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru ar gyfer prosiectau.

**WBPSG19**
**PAPUR I'W NODI: A**
**19 Chwefror 2013**

**Grŵp Gorfodi Troseddau yn erbyn Bywyd Gwyllt Cymru**

**Lluniwyd gan:** Y Sarjant Matthew Howells (Heddlu Dyfed-Powys) ar ran y grŵp uchod.

***Cefndir/Cynnydd***

Cyfarfu Grŵp Gorfodi Troseddau yn erbyn Bywyd Gwyllt Cymru ar 21 Tachwedd 2012 gyda Chadeirydd newydd, sef y Prif Arolygydd Mark Bleasdale (ar ran y Prif Gwnstabl Jackie Roberts) o Heddlu Dyfed-Powys. Mae camau gweithredu o'r cyfarfod hwnnw ynghlwm yn Atodiad 1. Ers y cyfarfod hwnnw, fodd bynnag, bu newid ym mhortffolios rhai o uwch-swyddogion Heddlu Dyfed-Powys. Bydd hynny'n golygu mai Mark Bleasdale fydd yn cadeirio'r cyfarfod nesaf ar 6 Chwefror ac y bydd ei olynydd yn cymryd ei le wedi hynny, nad wyf am ei enwi ar hyn o bryd rhag ofn y bydd rhagor o newidiadau yn ystod yr ychydig wythnosau nesaf. Ers penodi'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd mae'r Grŵp o Brif Swyddogion wedi aros yr un fath, ond mae'n bosibl iawn y bydd newidiadau yn ystod yr ychydig fisoedd nesaf wrth i bob Comisiynydd benodi ei Grŵp o Brif Swyddogion. Bydd Grŵp Gorfodi Troseddau yn erbyn Bywyd Gwyllt Cymru yn parhau i gyflawni ei swyddogaethau drwy'r cyfnod hwn o newid.

Mae Cyngor Cefn Gwlad Cymru wedi penodi rhywun yn lle Ian Guildford. Dechreuodd y Cwnstabl Mark Goulding ar ei secondiad ar 7 Ionawr 2013. Mae ganddo sawl blwyddyn o brofiad o ymdrin â materion sy'n ymwneud â bywyd gwyllt yn Heddlu De Cymru, a bydd yn barod i weithio'n galed yn syth yn ei rôl newydd.

Bydd y Sarjant Andy Scourfield o Heddlu De Cymru, a secondiwyd i'r Comisiwn Coedwigaeth am 5 mlynedd, yn dychwelyd i Heddlu De Cymru ym mis Mawrth. Mae wedi bod yn aelod gweithgar iawn o'r grŵp, ac mae ei waith gyda'r Comisiwn Coedwigaeth wedi bod yn amhrisiadwy o ran lleihau troseddau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol yn ardal goedwigaeth De Cymru. Dymunwn yn dda iddo'n ôl yn yr Heddlu.

Mae sawl darn o waith wedi parhau, gan gynnwys y canlynol:

- Y Trefniadau Gweithredu Safonol ar gyfer Atal Herwhela Ceirw, a luniwyd gan Andy Scourfield. Mae'r trefniadau hyn wedi'u dosbarthu i heddluoedd Cymru drwy'r cydlynwyr bywyd gwyllt, ond er mwyn sicrhau eu llwyddiant mae angen i'r heddluoedd eu cefnogi. Gan nad yw materion sy'n gysylltiedig â bywyd gwyllt yn rhan o flaenoriaethau heddluoedd, mae'n bosibl na fydd unrhyw fentrau a allai olygu goblygiadau o ran cost (er enghraifft, cost storio ceirw marw wedi'u herwhela) eu hystyried na'u cefnogi am y tro.
- Cytundebau Rhannu Gwybodaeth sy'n cael eu datblygu gan Eryl Lloyd. Ar hyn o bryd, mae tri o'r pedwar heddlu sydd yng Nghymru

wedi ymrwymo i Gytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru. Nid yw Heddlu Dyfed-Powys wedi ymrwymo iddo eto, ond mae'n ei ystyried. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn ystyried ymrwymo i Gytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru, ac mae'r rhan fwyaf o bartneriaid y Partneriaethau Diogelwch Cymunedol eisoes wedi ymrwymo iddo. Mae'r Cytundeb yn darparu cytundeb a thempledi ynghylch rhannu gwybodaeth bersonol, a dylai ei gwneud yn haws i asiantaethau sefydlu Protocolau Rhannu Gwybodaeth. Bydd y ddolen hon yn mynd â chi i hafan gwefan Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru, lle gallwch gael rhagor o wybodaeth **http://www.waspi.org/home.cfm?orgid=702**

- Bydd y Sarjant Rob Taylor o Heddlu Gogledd Cymru yn llunio adroddiad Cymru Gyfan ar droseddau yn erbyn bywyd gwyllt ar gyfer 2012 erbyn diwedd mis Ionawr, gan dynnu sylw at rai achosion ardderchog ac at rai ystadegau er mwyn dangos lefel y digwyddiadau a'r math o ddigwyddiadau yr ymdriniwyd â hwy gydol y flwyddyn. Oherwydd bod digwyddiadau'n ymwneud â bywyd gwyllt yn cael eu cofnodi'n wahanol yn heddluoedd Cymru, ni fydd y ffigurau yn rhai swyddogol y gellir eu cyhoeddi gan na ellir gwarantu eu cywirdeb. Gellir dosbarthu'r adroddiad hwn i aelodau Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru pan gaiff ei gyhoeddi, er gwybodaeth iddynt ac er mwyn iddynt ei ddarllen.

***Cynllun/Cynigion***

Cynhelir cyfarfod nesaf Grŵp Gorfodi Troseddau yn erbyn Bywyd Gwyllt Cymru ar 6 Chwefror. Bwriad y grŵp yw llunio adolygiad beirniadol o Strategaeth Lleihau Troseddau yn erbyn Bywyd Gwyllt Cymru 2011-2015 fel bod ein Cynllun Cyflawni ar gyfer 2013 yn canolbwyntio ar y strategaeth honno.

Gan fod y Comisiynwyr Heddlu a Throsedd yn awr wrth eu gwaith yn y pedwar heddlu sydd yng Nghymru, a'u bod wrthi'n pennu eu blaenoriaethau a'u cyllidebau ar gyfer y flwyddyn nesaf, byddai'n adeg hwylus i Bartneriaeth Bioamrywiaeth Cymru ofyn am farn y Comisiynwyr yn unigol am droseddau yn erbyn bywyd gwyllt/troseddau gwledig er mwyn cael eu cefnogaeth i'r gwaith yr ydym yn ceisio ei gyflawni.

***Y camau gweithredu y gofynnir amdanynt***

- Rhoi cymeradwyaeth i ni barhau fel yr awgrymir uchod IE/NA

**WBPSG19**
**PAPUR I'W NODI A: ATODIAD 01**
**19 Chwefror 2013**

## Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru – gweithgor atal a gorfodi troseddau yn erbyn bywyd gwyllt.

Cynhaliwyd y cyfarfod yn Swyddfeydd y Comisiwn Coedwigaeth, Resolfen
am 11am ddydd Mercher, 21 Tachwedd 2012

Yn bresennol
Mark Bleasdale – Heddlu Dyfed-Powys

| | |
|---|---|
| Cyngor Cefn Gwlad Cymru | Iwan Hughes (Dros y ffôn) |
| Heddlu Dyfed-Powys | Matthew Howells |
| Heddlu Dyfed-Powys | Pete Charleston |
| Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru | Richie Hammond |
| Heddlu Gogledd Cymru | Rob Taylor (Dros y ffôn) |
| Heddlu Gogledd Cymru /Asiantaeth yr Amgylchedd | Eryl Lloyd (Dros y ffôn) |
| Y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar (RSPB) | Pat Lindley (Dros y ffôn) |
| Y Gymdeithas Frenhinol er Atal Creulondeb i Anifeiliaid (RSPCA) | Simon Evans |
| Heddlu De Cymru/Comisiwn Coedwigaeth | Andy Scourfield |
| Llywodraeth Cymru | Rachel Hodson |
| Sylwedydd | Ian Guildford |

Ymddiheuriadau:
Peter Jones, Gwasanaeth Erlyn y Goron
Jo Jones, Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru
Mark Stafford, Llywodraeth Cymru
Nevin Hunter, Yr Uned Genedlaethol Troseddau yn erbyn Bywyd Gwyllt
Colin Thomas, Heddlu Gwent
Rob Maddocks, Heddlu Gwent

Hoffai'r grŵp ddiolch i'r Comisiwn Coedwigaeth am ddarparu'r ystafell gyfarfod a'r cyfleusterau ffôn-gynadledda i ni eu defnyddio.

Mae arweinydd Cymdeithas Prif Swyddogion Heddlu Cymru ar droseddau yn erbyn bywyd gwyllt, Ian Arundale, a chadeirydd y grŵp, y Prif Uwch-arolygydd Thomas, wedi ymddeol ers cyfarfod diwethaf y grŵp. Mae'r Prif Gwnstabl Roberts o Heddlu Dyfed-Powys wedi cymryd yr awenau o safbwynt materion sy'n gysylltiedig â throseddau yn erbyn bywyd gwyllt ar ran Cymdeithas Prif Swyddogion Heddlu Cymru, ac mae wedi gofyn i'r Prif Arolygydd Mark Bleasdale ei chynrychioli yng nghyfarfod y grŵp. Mae Mark wedi cynnig cymryd rôl y cadeirydd, a derbyniwyd y cynnig yn unfrydol.

Camau gweithredu

| | Cam gweithredu | Erbyn | Gan bwy | Canlyniad |
|---|---|---|---|---|
| 4j | Gweithio gyda heddluoedd eraill er mwyn gweld Cytundeb Rhannu Gwybodaeth a Chytundeb Rhannu Data Heddlu Gogledd Cymru/Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru yn cael eu defnyddio ledled Cymru.<br>Mae trafodaethau eisoes yn cael eu cynnal â Heddlu De Cymru ac Asiantaeth yr Amgylchedd. | Gorffennaf 2012 | Eryl Lloyd | Mae protocolau Asiantaeth yr Amgylchedd / Heddlu Gogledd Cymru yn cael eu defnyddio, ac mae gan Heddlu Dyfed-Powys brotocolau tebyg.<br><br>Mae Cyfoeth Naturiol Cymru (Ann Weedy) yn bwrw ymlaen â gwaith ar y mater hwn drwy Gytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru.<br><br>Mae gan yr Heddlu bellach rai amheuon ynghylch cydymffurfio â chyfarwyddyd Rheoli Gwybodaeth yr Heddlu. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 34c | Ystyried llunio Trefniadau Gweithredu Safonol ar gyfer troseddau sy'n gysylltiedig â herwhela ceirw. | Gorffennaf 2012 | Andy Scourfield | Mae'r ddogfen wedi'i dosbarthu a'i derbyn. |
| 34d | Darganfod a yw systemau gorchymyn a rheoli heddluoedd yn creu cysylltiadau awtomatig rhwng geiriau allweddol a dogfennau cyfarwyddyd. | Mai 2012 | Rob Taylor<br><br>Colin Thomas<br><br>Matthew Howells | Adroddiad Gwent wedi dod i law eisoes.<br><br>Mae Heddlu Gogledd Cymru yn chwilio ar sail 25 o eiriau allweddol.<br><br>Ni all Heddlu Dyfed-Powys gysylltu cyfarwyddyd â geiriau allweddol, ond bydd Matt yn edrych yn awr a ellir adnabod digwyddiadau drwy chwilio ar sail geiriau allweddol. |
| 34f | Caiff dogfen y Trefniadau Gweithredu Safonol ar gyfer atal herwhela ceirw ei hadolygu er mwyn darganfod a oes angen marc diogelu arni. | Y cyfarfod nesaf | Mark Bleasdale | |
| 34g | Bydd Andy Scourfield yn dosbarthu'r Trefniadau Gweithredu Safonol ar gyfer atal herwhela ceirw i bob swyddog sy'n arwain ym maes Troseddau yn erbyn Bywyd Gwyllt, a fydd yna'n eu dosbarthu i'r ystafelloedd rheoli. | Y cyfarfod nesaf | Mark Bleasdale | |
| 37 | Llunio adroddiad Cymru gyfan ar droseddau yn erbyn bywyd gwyllt ar gyfer 2012. | Ionawr 2013 | Iwan Hughes/Rob Taylor | Arweiniodd trafodaethau rhwng y Prif Uch-arolygydd Thomas a Rob Taylor at gytundeb na fyddai adroddiad blynyddol yn cael ei lunio ar gyfer 2012.<br><br>Caiff adroddiad ar gyfer 2012 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | ei lunio ym mis Ionawr 2013 gan ddefnyddio data a gyflwynir i Rob Taylor erbyn y dyddiadau y bydd yn eu pennu. |
| 37a | Bydd swyddogion sy'n arwain ym maes Troseddau yn erbyn Bywyd Gwyllt yn cyflwyno data am droseddau yn erbyn bywyd gwyllt i Rob Taylor fel sy'n ofynnol, er mwyn gallu llunio adroddiad blynyddol ar gyfer 2012. | Ionawr 2013 | Swyddogion arweiniol Troseddau yn erbyn Bywyd Gwyllt | |
| 37b | Bydd Rachael Hodson yn cyflwyno data am wenwyno i Rob Taylor er mwyn ei gynnwys yn yr adroddiad blynyddol ar gyfer 2012. | Ionawr 2013 | Rachael Hodson | |
| 37c | Bydd Simon Evans yn ystyried a all ystadegau'r RSPCA gyfrannu at yr adroddiad ar gyfer 2012. | Ionawr 2013 | Simon Evans | |
| 40 | Bydd y grŵp yn ystyried llunio cyfres o nodiadau cyfarwyddyd i swyddogion sy'n ymchwilio i droseddau yn erbyn bywyd gwyllt, yn dibynnu ar ganlyniad camau gweithredu 34c a 34d | Gorffennaf 2012 | Cadeirydd | Bydd Matt Howells yn llunio Trefniadau Gweithredu Safonol ar gyfer Rhywogaethau dan Warchodaeth Ewropeaidd.<br><br>Bydd Rob Taylor yn llunio Trefniadau Gweithredu Safonol ar gyfer difrod i gynefinoedd.<br><br>Caiff y fersiynau drafft eu hystyried yn y cyfarfod nesaf ym mis Ionawr 2013. |
| 41 | Bydd y grŵp yn manteisio ar gynnig Cyngor Cefn Gwlad Cymru i roi sylw i waith y grŵp am un prynhawn ar stondin y Cyngor yn Sioe Frenhinol Cymru (23 - 27 Gorffennaf). | Gorffennaf 2012 | Richie Hammond | Cyflawnwyd y fenter yn llwyddiannus.<br><br>Bu aelodau'r grŵp yn cymryd rhan hefyd mewn diwrnod agored llwyddiannus gyda Heddlu Gogledd Cymru, ac roedd yn ymddangos mai eu stondin nhw oedd un o'r rhai mwyaf poblogaidd. |
| 42 | Datblygu cyflwyniad byr 10 munud ar droseddau yn erbyn tirweddau (DVD a PowerPoint) y gall arweinwyr ei gyflwyno mewn amryw Ysgolion Coedwig lleol yn ardal Torfaen ac yna yng Ngwent. (Ni ddylid ei ddrysu â'r gwaith sy'n mynd rhagddo gyda Llywodraeth Cymru a'r Cwricwlwm Ysgol Cenedlaethol). | Gorffennaf 2012 | Rob Maddocks | Darparwyd y newyddion diweddaraf yn ysgrifenedig a oedd yn nodi bod y DVD wedi'i gynhyrchu a'i fod yn aros am y clawr. Gobeithir y caiff y fideo ei gynnwys ar wefan *schoolBeat* wedyn. |
| 42a | Mae'r posibilrwydd y gallai Heddlu Gwent greu DVD ar droseddau yn erbyn bywyd gwyllt yn cael ei ystyried. | Hydref 2012 | Colin Thomas | Mae'r DVD wedi'i ohirio am y tro.<br><br>Caiff 10 sesiwn hyfforddi ar droseddau yn erbyn bywyd |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | gwyllt a thirweddau eu cyflwyno i staff ystafell reoli Heddlu Gwent erbyn mis Mai 2013. Yna, caiff yr angen am y DVD ei adolygu. |
| 42c | Ystyried sut y gellir cynnwys troseddau yn erbyn bywyd gwyllt yng nghwricwlwm yr ysgol. | | Matt Howells | Mae Linda Roberts, cydlynydd ysgolion Cymru gyfan, a Matt Howells wedi llunio cynllun gwers ar droseddau yn erbyn bywyd gwyllt, sy'n cael ei gyfieithu ar hyn o bryd cyn ei fod yn cael ei ddosbarthu. |
| 43 | Ystyried y cynllun cyflawni ar gyfer 2013 a llunio adolygiad beirniadol ohono. | Gorffennaf 2012 | Pawb | Wedi'i ohirio tan fis Ionawr 2013 pan ofynnir i bawb fod yn bresennol. |
| 43a | Ystyried sut y gallwn lobïo er mwyn sicrhau bod argymhellion ymchwiliad y Pwyllgor Archwilio Amgylcheddol i droseddau yn erbyn bywyd gwyllt yn gallu cael eu gweithredu yng Nghymru. | Ionawr 2013 | Pawb | |
| 43b | Egluro sut y mae Grŵp Gorfodi Troseddau yn erbyn Bywyd Gwyllt Cymru yn perthyn i Bartneriaeth Bioamrywiaeth Cymru. | Ionawr 2013 | Pete Charleston | |
| 43d | Dylai'r grŵp ystyried defnyddio cyfryngau cymdeithasol yn rhan o'n cynllun cyfathrebu. | Ionawr 2013 | Pawb<br><br>Pete Charleston | Holi a yw'r sefydliadau a gaiff eu cynrychioli ar y grŵp yn defnyddio cyfryngau cymdeithasol ac yn caniatáu i unigolion ddefnyddio cyfrifon Twitter.<br><br>Holi a yw Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru yn defnyddio cyfryngau cymdeithasol. |
| 43c | Dosbarthu cynllun cyflawni, strategaeth a chylch gorchwyl cyn y cyfarfod nesaf. | Ionawr 2013 | Pete Charleston | |
| 44 | Cynhyrchu calendr o ddigwyddiadau allweddol. | Gorffennaf 2012 | Dylai pawb anfon e-bost at Pete Charleston gyda manylion am ddigwyddiadau sy'n allweddol i waith y grŵp hwn. | Cafwyd gwybodaeth gan Gwent; dylai pawb arall ddarparu'r un wybodaeth os gwelwch yn dda.<br><br>Ni chafwyd unrhyw wybodaeth bellach. |
| 44a | Bwriedir cynnal sioe tanau gwyllt y DU 2013 yn Ne Cymru. | | Bydd Richie Hammond yn rhannu manylion pellach pan fyddant yn hysbys. Bydd cyfle i Grŵp Gorfodi Troseddau yn erbyn Bywyd Gwyllt Cymru gyfrannu mewn rhyw fodd. | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 45 | Ystyried llunio bwletinau gwybodaeth y mae manylion sensitif wedi'u gadael allan ohonynt. | Hydref 2012 | Andy McWilliam | Ni ellir bwrw ymlaen â'r cam hwn ar hyn o bryd. |
| 46 | Nodi dyddiadau ar gyfer cyfarfodydd yn ystod y 12 - 18 mis nesaf. | | | Cytunwyd y caiff cyfarfodydd yn y dyfodol eu cynnal ar y 3ydd dydd Mawrth ym mis Hydref, mis Ionawr, mis Ebrill a mis Gorffennaf. |
| 47 | Nododd y grŵp fod Mark Goulding wedi'i benodi yn swyddog troseddau yn erbyn bywyd gwyllt Heddlu De Cymru. Bydd yn cael ei secondio i Gyngor Cefn Gwlad Cymru, a gobeithir y bydd yn gallu chwarae rhan weithgar yng ngwaith Grŵp Gorfodi Troseddau yn erbyn Bywyd Gwyllt Cymru. | | | |

Unrhyw fater arall

Cynhelir y cyfarfod nesaf am 10.30am ddydd Mercher, 6 Chwefror 2013 yn y Gyd-ganolfan Gwasanaethau Brys, Llandrindod LD1 5DF (y gylchfan olaf wrth adael Llandrindod i gyfeiriad Rhaeadr Gwy).
Cynhelir y cyfarfod dilynol ddydd Mawrth, 21 Mai 2013 ym Mhencadlys Heddlu Gwent?

**WBPSG19**
**PAPUR I'W NODI: B**
**19 Chwefror 2013**

**Prosiect Safleoedd Bywyd Gwyllt Lleol ar gyfer De-ddwyrain Cymru**

**Lluniwyd gan:** Melanie Dodd – Aelod o'r Sefydliad Ecoleg a Rheolaeth Amgylcheddol, Ecolegydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili a Swyddog Cymru ar gyfer y Gymdeithas Ecolegwyr Llywodraeth Leol. Darparwyd yr adroddiad ar ran y 'grŵp prosiect'

***Cefndir/Cynnydd***

Cyflwynwyd papur i Grŵp Llywio Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru ar 13 Gorffennaf 2011, ar ran awdurdodau lleol De a Gogledd Cymru a phartneriaethau Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol, a oedd yn ceisio pwyso am fwy o gydnabyddiaeth i Safleoedd o Bwysigrwydd ar gyfer Cadwraeth Natur wrth wneud penderfyniadau ynghylch bioamrywiaeth ar draws Cymru. Yn ogystal, roedd y papur yn tynnu sylw at fanteision y system gyfredol o Safleoedd o Bwysigrwydd ar gyfer Cadwraeth Natur fel cyfle i gyflawni targedau cenedlaethol ar gyfer bioamrywiaeth, gan awgrymu y byddai datblygu system o Safleoedd Bywyd Gwyllt Lleol ar draws Cymru gyfan yn ddull effeithiol o weithredu. Yn dilyn cyfarfod Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru, mae prosiect peilot yn y de-ddwyrain sy'n cydgysylltu prosiectau perthnasol eraill yn y rhanbarth wedi'i gynnig er mwyn cadarnhau'r manteision hyn a darparu canllawiau arfer da ynghylch sefydlu system o Safleoedd Bywyd Gwyllt Lleol yng Nghymru.

Caiff Safleoedd o Bwysigrwydd ar gyfer Cadwraeth Natur eu clustnodi gan y rhan fwyaf o'r awdurdodau lleol yn y de yn rhan o broses Cynlluniau Datblygu. Mae Safleoedd o Bwysigrwydd ar gyfer Cadwraeth Natur yn safleoedd anstatudol, a'r unig fodd y gellir eu gwarchod yw trwy bolisïau yn y broses gynllunio (h.y. maent yn ystyriaeth o bwys wrth reoli datblygu). Tra mae Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig yn sampl gynrychioliadol sy'n bodloni meini prawf cenedlaethol, mae Safleoedd o Bwysigrwydd ar gyfer Cadwraeth Natur yn cynnwys yr holl safleoedd sy'n bodloni meini prawf lleol/rhanbarthol. Cafwyd trafodaeth barhaus ynghylch y derminoleg a ddefnyddir wrth gyfeirio at y safleoedd anstatudol hyn, ac mae hwnnw'n fater sy'n cael ei ystyried gan Grŵp Safleoedd o Bwysigrwydd ar gyfer Cadwraeth Natur Cymru ar hyn o bryd. Fodd bynnag, derbynnir yn gyffredinol bod safle o bwys lleol a glustnodwyd trwy'r system gynllunio yn Safle o Bwysigrwydd ar gyfer Cadwraeth Natur, ac y gallai Safle o'r fath gael ei ystyried yn Safle Bywyd Gwyllt Lleol o gael cytundeb y tirfeddiannwr, cyngor a/neu gymorth ynghylch rheoli, a chyllid efallai. Y nod yn y pen draw ar gyfer pawb sy'n ymwneud â Safleoedd o Bwysigrwydd ar gyfer Cadwraeth Natur yng Nghymru yw sefydlu system o Safleoedd Bywyd Gwyllt Lleol i warchod a gwella'r safleoedd hyn er budd bioamrywiaeth yn y tymor hwy, trwy ymgysylltu â'r tirfeddiannwr a cheisio sicrhau dull rheoli cadarnhaol a gweithgar.

Prin yw'r cyswllt a gafwyd â thirfeddianwyr yn ystod camau arolygu a gwerthuso cychwynnol y broses o ddewis Safleoedd o Bwysigrwydd ar gyfer Cadwraeth Natur gan awdurdodau lleol, oherwydd dim ond trwy broses y Cynllun Datblygu Lleol/Unedol a Adneuwyd y bydd y rhan fwyaf o awdurdodau lleol yn ymgynghori ynghylch clustnodi Safleoedd o Bwysigrwydd ar gyfer Cadwraeth Natur. Mae hynny'n bennaf oherwydd yr amser y mae ei angen i gynnal arolwg o nifer fawr o safleoedd, ac mewn rhai achosion, oherwydd yr anhawster wrth geisio darganfod manylion llawn ynghylch pwy sy'n berchen ar y tir. Felly, nid yw rhai tirfeddianwyr yn ymwybodol o bwysigrwydd eu tir ar gyfer bywyd gwyllt, neu mewn achosion lle mae tirfeddianwyr yn ymwybodol o Safleoedd Bywyd Gwyllt Lleol, nid oes unrhyw swyddogion penodedig wedi bod ar gael i ddarparu cyngor i'w hannog i ddefnyddio dulliau rheoli

cadarnhaol er mwyn diogelu bioamrywiaeth. Byddai'r prosiect peilot arfaethedig yn cychwyn trafodaeth â'r tirfeddianwyr ac yn codi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd lleol a rhanbarthol Safleoedd Bywyd Gwyllt Lleol, yn ogystal â sicrhau eu bod yn cael eu rheoli mewn modd cadarnhaol.

I rai tirfeddianwyr byddai'r prosiect yn gyflwyniad pwysig i fyd cymorth grant amgylcheddol, ac i ffermwyr byddai'n gyfle i gael cymorth grant ar gyfer nodweddion penodol cynefinoedd neu rywogaethau, na chânt eu cynnwys yn Glastir. I rai tirfeddianwyr nad ydynt yn ffermio, byddai'n un ffynhonnell o gymorth grant amgylcheddol nad yw'n ymwneud â choetir.

Mae'r cynefinoedd a'r rhywogaethau a nodir yn rhestr Adran 42 (*rhestrau a chamau gweithredu'n ymwneud â bioamrywiaeth (Cymru)*) Deddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006 yn aml mewn Safleoedd Bywyd Gwyllt Lleol. Felly, byddai prosiect i annog dull cadarnhaol o reoli Safleoedd Bywyd Gwyllt Lleol yn cyfrannu'n helaeth at y ddyletswydd statudol sydd ar Lywodraeth Cymru (ac awdurdodau lleol trwy hynny) i gymryd camau i hybu'r gwaith o warchod yr organebau byw a'r mathau o gynefin a gaiff eu cynnwys mewn unrhyw restr a gaiff ei chyhoeddi dan yr adran hon, neu annog eraill i gymryd camau o'r fath.

Byddai prosiect Safleoedd Bywyd Gwyllt Lleol hirdymor hefyd yn cyfrannu at gyflawni Canlyniad 21 y Strategaeth Amgylcheddol ar gyfer Cymru, sy'n ceisio sicrhau bod safleoedd lleol mewn cyflwr ffafriol erbyn 2026. Byddai'r prosiect hefyd yn cynorthwyo'r gwaith o weithredu Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol ar draws y rhanbarth yn ogystal â chyfrannu at gyrraedd targedau cenedlaethol ar gyfer bioamrywiaeth.

Safleoedd Bywyd Gwyllt Lleol, ynghyd â safleoedd dynodedig cenedlaethol, Ewropeaidd a rhyngwladol, yw cyfalaf naturiol hanfodol y DU. Awgrymir y dylid trin yr asedau unigryw hyn fel yr adnodd hyfyw lleiaf posibl o ran bywyd gwyllt mewn ardal, y dylid sicrhau na chaiff ei golli ac na fydd yn dirywio er mwyn cynnal y lefelau presennol o fioamrywiaeth (y meini prawf ar gyfer dewis Safleoedd Bywyd Gwyllt yng Ngwent, Morgannwg a Sir Gaerfyrddin, 2000).

### *Cynllun/Cynigion*

Mae'r prosiect peilot arfaethedig yn canolbwyntio ar ardaloedd awdurdodau lleol y de-ddwyrain, sef yr ardal y mae Canolfan Cofnodi Bioamrywiaeth De-ddwyrain Cymru yn ymdrin â hi. Mae'r ardal honno'n cynnwys Blaenau Gwent, Caerffili, Merthyr Tudful, Torfaen a Rhondda Cynon Taf, Pen-y-bont ar Ogwr, Caerdydd, Sir Fynwy, Castell-nedd Port Talbot, Casnewydd, Abertawe a Bro Morgannwg. Cysylltwyd â'r holl ecolegwyr/swyddogion bioamrywiaeth ac maent wedi cadarnhau y byddent yn hoffi cymryd rhan mewn prosiect.

Mae'r 'grŵp prosiect' yn cynnwys holl ecolegwyr/swyddogion bioamrywiaeth yr awdurdodau lleol, Ymddiriedolaeth Natur Gwent, Ymddiriedolaeth Natur De a Gorllewin Cymru, Cyngor Cefn Gwlad Cymru a'r Ymddiriedolaeth Gwarchod Cacwn. Mae sefydliadau a grwpiau eraill, megis y rhai sydd eisoes yn ymwneud â Safleoedd Bywyd Gwyllt Lleol, gan gynnwys Grŵp Llywio Safleoedd Bywyd Gwyllt Canol y Cymoedd, yn gwbl gefnogol i'r prosiect. Caiff sefydliadau eraill eu gwahodd i ymuno â'r grŵp wrth iddo ddatblygu.

Cyfarfu'r grŵp prosiect am y tro cyntaf ar 29 Ionawr 2013 i drafod y prosiect a chytuno ar ffordd ymlaen, yn enwedig mewn perthynas â chael cyllid.

Mae Ymddiriedolaeth Natur Gwent ac Ymddiriedolaeth Natur De a Gorllewin Cymru wedi cytuno i arwain y prosiect, gan y byddent yn gweithredu fel yr ymgeisydd am gyllid ac yn cynnal y ddau swyddog prosiect y byddai disgwyl iddynt gyflawni a monitro’r prosiect.

Ystyrir ei bod yn debygol y byddai angen cam datblygu sylweddol i gefnogi cais am gyllid. Byddai hynny’n angenrheidiol er mwyn ymchwilio i brosiectau sy’n bodoli eisoes, dangos yr angen am y prosiect (e.e. tystiolaeth o golli Safleoedd Bywyd Gwyllt Lleol), adnabod tirfeddianwyr, cadarnhau’r safleoedd y dylid eu mabwysiadu a nodi’r gwaith rheoli y mae angen ei wneud. Mae’n debyg mai cam datblygu a fyddai’n para blwyddyn fyddai hwn.

Sefydlwyd is-grŵp yng nghyfarfod y grŵp prosiect i symud y prosiect yn ei flaen, ac mae’r Ymddiriedolaethau Natur yn chwilio am gyllid cychwynnol i ddechrau’r broses trwy gasglu sylfaen dystiolaeth ynghyd. Gofynnwyd i ecolegwyr awdurdodau lleol gynnwys rhywfaint o gyllid yn eu rhaglen cymorth grant gan y Cyngor Cefn Gwlad ar gyfer 2013-2014. Bwriedir dechrau trafodaethau â Chronfa Dreftadaeth y Loteri i geisio cael eglurhad ynghylch rhai materion, ac mae angen dod o hyd i ffynonellau eraill o gyllid.

Yn gryno, rhagwelir mai nodau’r prosiect fyddai:

- Sefydlu system ranbarthol o Safleoedd Bywyd Gwyllt Lleol yn y de-ddwyrain
- Darparu canllawiau arfer gorau ynghylch sefydlu system o Safleoedd Bywyd Gwyllt Lleol yng Nghymru
- Sicrhau bod gan dirfeddianwyr ymdeimlad o falchder yn yr adnodd sy’n eiddo iddynt ac sy’n llawn bioamrywiaeth
- Sicrhau bod cymunedau lleol yn ymwneud â hyrwyddo’r gwaith o warchod eu hadnodd lleol o ran bioamrywiaeth
- Codi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd Safleoedd Bywyd Gwyllt Lleol o safbwynt bioamrywiaeth
- Gwella ac adfer cynefinoedd â blaenoriaeth ar raddfa’r dirwedd a chyfrannu at fodloni targedau lleol a chenedlaethol ar gyfer bioamrywiaeth
- Cyfrannu at gyflawni Canlyniad 21 y Strategaeth Amgylcheddol ar gyfer Cymru

Dyma fyddai’r amcanion:

- Cyflogi swyddog(ion) prosiect ar gyfer Safleoedd Bywyd Gwyllt Lleol
- Creu system ranbarthol o Safleoedd Bywyd Gwyllt Lleol yn y de-ddwyrain sy’n cydweithredu’n weithgar â thirfeddianwyr er mwyn gwella ac adfer bioamrywiaeth ar raddfa’r dirwedd
- Cyfathrebu’n effeithiol ac yn gadarnhaol â thirfeddianwyr Safleoedd Bywyd Gwyllt Lleol
- Darparu cyngor technegol er mwyn gallu rheoli Safleoedd Bywyd Gwyllt Lleol mewn modd priodol y gellir ei gyflawni
- Darparu cymorth ariannol er mwyn gweithredu dulliau rheoli priodol
- Cyhoeddi taflenni cynghori ynghylch rheoli cynefinoedd
- Hyrwyddo gwerth Safleoedd Bywyd Gwyllt Lleol mor eang ag sy’n bosibl, a chynyddu’r gydnabyddiaeth ohonynt ar lefel genedlaethol

Gallai rhai camau gweithredu penodol gynnwys y canlynol:

- Hysbysebu am swyddog(ion) prosiect a chyflogi swyddog(ion) prosiect
- Casglu gwybodaeth ynghyd er mwyn dewis safleoedd ar gyfer y prosiect
- Dewis y safleoedd a fydd yn cael eu mabwysiadu’n rhan o’r prosiect
- Chwilio yn y Gofrestrfa Tir a chysylltu â thirfeddianwyr y safleoedd a ddewisir
- Sefydlu data gwaelodlin sy’n ymwneud â chynefinoedd a Safleoedd o Bwysigrwydd ar gyfer Cadwraeth Natur ar gyfer y safleoedd hyn

- Gosod targedau ar gyfer y prosiect (e.e. cyfanswm arwynebedd y cynefin a gaiff ei adfer, cyfanswm nifer y safleoedd a gaiff eu monitro) ar gyfer y safleoedd hyn
- Sefydlu a gweinyddu cynllun grantiau bach sy'n darparu cymorth ariannol i dirfeddianwyr er mwyn cyflawni tasgau rheoli penodol
- Trefnu a chynnal digwyddiadau arddangos a hyfforddi lleol ar gyfer tirfeddianwyr
- Paratoi a chyhoeddi set o daflenni cynghori ynghylch rheoli cynefinoedd
- Ymchwilio i gyllid ychwanegol ar gyfer parhau â'r prosiect yn y dyfodol, a gwneud cais am gyllid o'r fath

Gallai tasgau cadarnhaol ar gyfer rheoli tir gynnwys y canlynol:

- Rheoli cynefinoedd â blaenoriaeth a nodweddion Safleoedd Bywyd Gwyllt Lleol mewn modd ymarferol a phriodol, e.e. rheoli prysgwydd, torri glaswellt, pori, ffensio
- Rheoli er budd rhywogaethau penodol
- Gwneud gwelliannau i fynediad at ddibenion rheoli
- Monitro nodweddion o ran rhywogaethau a chynefinoedd
- Rheoli rhywogaethau planhigion goresgynnol

***Y camau gweithredu y gofynnir amdanynt***

- ➢ Cymeradwyo prosiect peilot ar gyfer system o Safleoedd Bywyd Gwyllt Lleol yn y de-ddwyrain
- ➢ Cefnogi cais am gyllid ar gyfer y prosiect
- ➢ Cynorthwyo i adnabod a sicrhau cyllid ar gyfer cam datblygu cychwynnol a fydd yn para blwyddyn
- ➢ Cynorthwyo i adnabod a sicrhau cyllid ychwanegol ar gyfer prosiect peilot a fydd yn para 5 mlynedd

**WBPSG19**
**PAPUR I'W NODI: C**
**19 Chwefror 2013**

**Hyfforddiant ynghylch Tacsonomi a Sgiliau Adnabod: Asesu Anghenion a'r Ddarpariaeth yng Nghymru**

**Lluniwyd gan:** Dr Graham Oliver ar ran Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru ac Amgueddfa Cymru

***Cefndir/Cynnydd***

Cafodd y prosiect hwn ei gyflwyno am y tro cyntaf i Grŵp Llywio Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru fel unrhyw fater arall yn ei gyfarfod diwethaf (WBPSG18/Gweithredu 19) a dosbarthwyd nodyn cefndir byr i'r aelodau (mae copi ynghlwm).

O safbwynt Pwyllgor Cydlynu Tacsonomig y DU, mae'r cyfarfod cyntaf wedi'i drefnu ar gyfer 12 Chwefror, a bydd crynodeb ar gael neu'n cael ei gyflwyno yng nghyfarfod Grŵp Llywio 19 Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru.

O safbwynt yr adolygiad o anghenion a'r ddarpariaeth o ran hyfforddiant ynghylch tacsonomi a sgiliau adnabod, cafwyd ymateb cadarnhaol i'r nodyn a ddosbarthwyd. Fodd bynnag, mae'r ymateb yn cadarnhau fy nealltwriaeth bod hwn yn fater amrywiol a bod angen strwythuro'r adolygiad yn ofalus er mwyn cynnwys pob un o'r elfennau sy'n codi. Yn ogystal, ceir meysydd sy'n gorgyffwrdd â'i gilydd y mae angen eu datrys, megis arolwg DEFRA o anghenion cofnodi biolegol (gweler http://www.surveymonkey.com/s/MonitoringChange).

O ystyried y cymhlethdodau hyn, rwyf wedi penderfynu defnyddio SurveyMonkey™ i strwythuro'r arolwg a hwyluso'r gwaith o gasglu'r canlyniadau. Fodd bynnag, ar ôl ymgynghori â Sean McHugh ac Adam Rowe, rwyf wedi gofyn i'r Canolfannau Cofnodi Lleol ymateb yn syth gan ddarparu eu data ynghylch y galw a'r cyflenwad. Dylai'r ymateb roi darlun cyflym i ni o'r maes pwysig sy'n ymwneud â chofnodwyr biolegol, a fydd yn sail ar gyfer ffordd ymlaen o safbwynt y rhan hon o'r adolygiad. Dylai data rhagarweiniol fod ar gael yng nghyfarfod Grŵp Llywio 19 Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru, yn ogystal â chopi o dempled SurveyMonkey ac unrhyw ddata a fydd wedi dod i law erbyn hynny.

Yn ystod y drafodaeth uchod, nodwyd bod o leiaf 30 o sefydliadau yng Nghymru yn darparu rhyw lefel o hyfforddiant; mae eu hymatebion yn ogystal â'r dadansoddiad yn debygol o fod yn gymhleth. Byddai'n ddymunol cael cyfraniad gan amrywiaeth o sefydliadau i'r dadansoddiad. Un cwestiwn y gallai fod angen ei drin yn ofalus yw'r cwestiwn ynghylch codi tâl am hyfforddiant, ac efallai y byddai'n ddoeth cynnal trafodaeth am hynny yng nghyfarfod Grŵp Llywio 19 Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru.

Mae pwnc cysylltiedig arall yn ymwneud ag effaith y prosiect Labordai Awyr Agored yn Lloegr (gweler http://www.opalexplorenature.org/). A fyddai

prosiect tebyg yng Nghymru yn ddull rhagweithiol o annog cyfranogiad ym maes bywyd gwyllt a gwaith cofnodi?

***Cynllun/Cynigion***

Mae'r papur hwn yn ailddatgan y bwriad i gwblhau arolwg o anghenion a'r ddarpariaeth o ran hyfforddiant tacsonomig yng Nghymru. Bydd y fethodoleg yn cynnwys defnyddio templed SurveyMonkey, a gofynnir am grŵp gorchwyl a gorffen ar gyfer y cam dadansoddi a'r cam llunio argymhellion. Mae cyfansoddiad y grŵp i'w drafod.

Mae arolwg interim o ddata o'r Canolfannau Cofnodi Lleol ar waith.

Awgrymir y dylid cynnal trafodaeth yng nghyfarfod Grŵp Llywio Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru ynghylch codi tâl am hyfforddiant.

Awgrymir y dylid cynnal trafodaeth yng nghyfarfod Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru ynghylch effeithiolrwydd prosiect Labordai Awyr Agored yng Nghymru.

***Y camau gweithredu y gofynnir amdanynt***

1. Llunio tîm gorchwyl a gorffen i gyflawni'r cam nesaf
2. Rhocymeradwyaeth i ni barhau fel yr awgrymir uchod
3. Gofyn i bob aelod o Bartneriaeth Bioamrywiaeth Cymru annog pobl i gymryd rhan yn yr arolwg

Atodiad A: Nodyn ynghylch Unrhyw Fater Arall Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru a ddosbarthwyd ar ôl cyfarfod Grŵp Llywio 18 Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru
**Tacsonomi a Hyfforddiant Tacsonomig** Adroddiad gan Graham Oliver, Amgueddfa Cymru

Mae ymateb terfynol Cyngor Ymchwil yr Amgylchedd Naturiol (NERC) ynghylch ei ddogfen "UK Taxonomy and Systematics Review" wedi'i gyhoeddi ac mae'r crynodeb ynghlwm. Mae copi llawn ar gael ar: <http://www.nerc.ac.uk/research/programmes/taxonomy/documents/uk-review-response.pdf>

Hoffwn dynnu sylw'n arbennig at ddwy agwedd.

**1. Y broses o greu Pwyllgor Cydlynu Tacsonomig y DU a phresenoldeb Amgueddfa Cymru arno (fi sy'n cynrychioli'r Amgueddfa ar hyn o bryd).**

Hoffwn sicrhau'r gymuned gyfan yng Nghymru sydd â diddordeb mewn tacsonomi a hyfforddiant tacsonomig y bydd yr amgueddfa'n gweithredu mewn modd mor gynhwysol ag sy'n bosibl. Mae'n hanfodol bod anghenion Cymru yn cael eu cynrychioli'n llawn a bod Cymru, lle bo'n bosibl, yn manteisio ar unrhyw gyfleoedd a allai godi.

Nid yw cyfarfod cyntaf y pwyllgor wedi'i gynnal eto, ond pan fydd proses wedi dechrau rwy'n bwriadu dod â'r gymuned dacsonomig yng Nghymru ynghyd. Gellir trafod y materion sydd yn yr ymateb, a gellir cyflwyno safbwynt o Gymru.

**2. Tasgau sy'n gysylltiedig â darparu hyfforddiant tacsonomig.**

Yn ystod eleni, gofynnwyd i'r amgueddfa genedlaethol adolygu'r galw a'r cyflenwad o safbwynt hyfforddiant tacsonomig a sgiliau adnabod yng Nghymru. Gofynnodd Diana Reynolds am hynny drwy ein llythyr cylch gorchwyl, ac mae bellach yn rhan o gynllun gweithredol yr amgueddfa. Rwyf wedi oedi cyn gweithredu, gan aros am adolygiad Cyngor Ymchwil yr Amgylchedd Naturiol ac am rywfaint o waith a wnaed gan y Gymdeithas Linnean ar y ddarpariaeth o ran cyrsiau a addysgir yn y DU. Mae'r ddau beth wedi'u cwblhau a hoffwn fwrw ymlaen yn awr.

Rwy'n bwriadu creu gwefan lle gellir gweld y galw a'r cyflenwad a'u paru, gobeithio. Er mwyn gwneud hynny, mae angen cynnal arolwg o'r galw ac o'r arbenigedd sydd ar gael, ac rwy'n dibynnu ar bartneriaid ym Mhartneriaeth Bioamrywiaeth Cymru i'm helpu i gyflawni hynny. Hoffwn pe bai pob partner

- Yn rhestru'r mathau o hyfforddiant tacsonomig/hyfforddiant ynghylch sgiliau adnabod y mae arnynt ei angen, ac yn nodi ar gyfer pa grwpiau ac i ba lefel.
- Yn rhestru'r arbenigedd y gallent ei gynnig, ac yn nodi ar gyfer pa grwpiau ac i ba lefel.
- Yn rhestru unrhyw gyrsiau y maent yn eu rhedeg ar hyn o bryd, ac yn nodi ar gyfer pa grwpiau ac i ba lefel.
- Yn rhestru unrhyw gyrsiau y maent yn cyfrannu arian iddynt ar hyn o bryd.

Un o'r anawsterau gydag adolygiad o'r fath yw bod llawer o gofnodwyr, unigol yn aml, sydd â sgiliau sylweddol ond nad ydynt yn perthyn i unrhyw sefydliad. Byddai unrhyw help i gynnwys y gymuned hon yn cael ei werthfawrogi'n fawr.

Ar ôl casglu'r manylion hyn, byddaf yn chwilio'n bennaf am alw nad yw'n cael ei ateb, ac yna'n edrych ar sut i lenwi'r bylchau hynny.

Dylech anfon unrhyw ddata perthnasol drwy e-bost i'r cyfeiriad canlynol graham.oliver@museum wales.ac.uk neu drwy'r post ataf i yn yr Adran Bioamrywiaeth a Bywydeg Gyfundrefnol, Amgueddfa Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NP.

**WBPSG19**
**PAPUR I'W NODI: D**
**19 Chwefror 2013**

**Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru - Y wybodaeth ddiweddaraf am ymwybyddiaeth**

**Lluniwyd gan:** Sean McHugh, Tîm Cymorth Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru

**Y wybodaeth ddiweddaraf am ymwybyddiaeth o fioamrywiaeth**

## Cefndir/Cynnydd

Mae'r Confensiwn ar Amrywiaeth Biolegol wedi cymeradwyo Cynllun Strategol ar gyfer Bioamrywiaeth 2011-2020, gan gynnwys Targedau Aichi ar gyfer Bioamrywiaeth[1]. Mae Target 1 Aichi yn ymwneud â chyfathrebu ac ymwybyddiaeth mewn perthynas â bioamrywiaeth.

**Targed 1 Aichi ar gyfer Bioamrywiaeth**: Erbyn 2020 fan bellaf, bydd pobl yn ymwybodol o werthoedd bioamrywiaeth a'r camau y gallant eu cymryd i warchod bioamrywiaeth a'i ddefnyddio'n gynaliadwy.

Er mwyn mynd i'r afael â'r targed mae angen canolbwyntio ar gyfathrebu, addysg ac ymdrechion i godi ymwybyddiaeth ymysg y cyhoedd, gan ddefnyddio dull gweithredu sydd wedi'i deilwra ar gyfer gwahanol gynulleidfaoedd.
Mae ymwybyddiaeth ac addysg yn digwydd mewn cyd-destunau dysgu ffurfiol, megis ysgolion a phrifysgolion, yn ogystal â chyd-destunau anffurfiol, trwy waith mentora ac arbenigedd a ddarperir gan amgueddfeydd, parciau, Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol, cyrff anllywodraethol a rhwydweithiau cofnodi. Mae ffilmiau, teledu, radio, llenyddiaeth a chyfryngau cymdeithasol hefyd yn ddulliau pwerus o gyfathrebu a chodi ymwybyddiaeth. Bydd pobl yn dysgu hefyd trwy gymryd rhan mewn digwyddiadau, a cheir llwyfannau ar gyfer cyfnewid gwybodaeth rhwng rhanddeiliaid.

Mae rhaglen y Confensiwn ar gyfer Cyfathrebu, Addysg ac Ymwybyddiaeth y Cyhoedd yn cynnig cyngor, ac yn ddiweddar cyhoeddodd y Confensiwn becyn cymorth ynghylch ymwybyddiaeth[2].

## Gweithgareddau'r Cenhedloedd Unedig

2011-2020 yw Degawd y Cenhedloedd Unedig ar Fioamrywiaeth
Thema Diwrnod Rhyngwladol Bioamrywiaeth 2013 yw Dŵr a Bioamrywiaeth, ac fe'i dewiswyd i gyd-fynd â'r ffaith bod y Cenhedloedd Unedig wedi clustnodi 2013 yn Flwyddyn Ryngwladol Cydweithredu ynghylch Dŵr.

[1] http://www.cbd.int/sp/
[2] http://www.cbd.int/cepa/toolkit.shtml

## Trosolwg o weithgarwch yng Nghymru

Mae llawer o gyrff partner, gan gynnwys y cyrff anllywodraethol mwyaf, awdurdodau lleol a pharciau cenedlaethol, yn cynnal digwyddiadau allgymorth rheolaidd ac yn gweithio gydag ysgolion a rhanddeiliaid eraill. Ceir cyfleoedd hefyd i gydlynu digwyddiadau gyda'r cyrff anllywodraethol llai o faint sy'n cyflogi swyddogion yng Nghymru (e.e. Ymddiriedolaeth Adareg Prydain, Buglife, yr Ymddiriedolaeth Gwarchod Cacwn, Plantlife, yr Ymddiriedolaeth Gwarchod Amffibiaid ac Ymlusgiaid, Cymdeithas Gwas y Neidr Prydain, y Gymdeithas Mamaliaid, Canolfan Bywyd Gwyllt Morol Bae Ceredigion).

Mae Canolfannau Cofnodi Lleol yn cynnal digwyddiadau Bioblits rheolaidd y gellir eu haddasu i ganolbwyntio ar gynulleidfa gyhoeddus. Mae cyrsiau hyfforddi'n ymwneud â bywyd gwyllt, a ddarperir gan Ganolfannau Cofnodi Lleol ac Ymddiriedolaethau Natur, yn cynnwys cyrsiau addas i ddechreuwyr.

Ceir cyfleoedd i gysylltu ag Arolygon Bywyd Gwyllt y DU a chymryd rhan ynddynt[3]. Mae gwefan yr Amgueddfa Genedlaethol yn Llundain yn cynnwys porth sy'n rhestru'r holl arolygon pwysig sy'n ymdrin ag ystod eang o blanhigion, anifeiliaid a sefyllfaoedd amgylcheddol. Mae cyllid gan Bartneriaeth Bioamrywiaeth Cymru yn talu am gyfieithu Arolwg Cyfrif Pryfed poblogaidd y prosiect Labordai Awyr Agored (OPAL) er mwyn ei ddefnyddio yng Nghymru fel cynllun peilot. Mae Labordai Awyr Agored yn brosiect sy'n hyrwyddo gwyddoniaeth ymysg dinasyddion, ac mae newydd gyhoeddi adroddiad rhagarweiniol[4] sy'n gwerthuso effaith y prosiect.

**Wythnos Bioamrywiaeth Cymru 8 - 16 Mehefin 2013**

Bwriad Wythnos Bioamrywiaeth Cymru yw codi ymwybyddiaeth o fioamrywiaeth yn y gymdeithas a dathlu bywyd gwyllt lleol. Amcangyfrifir bod 95 o ddigwyddiadau wedi'u cynnal yn 2012, a ymgysylltodd yn uniongyrchol ag oddeutu 4,000 o bobl. Roedd y digwyddiadau'n cynnwys y canlynol: digwyddiad gyda Gweinidog yn bresennol i agor safle Ardal Cadwraeth Arbennig yn Aberbargod; teithiau cerdded ar hyd llwybrau natur; diwrnodau darganfod; ymweliad ag Ynys Sgomer; diwrnod agored ar fferm; marchnad ffermwyr; sesiynau glanhau traethau; chwilio am fywyd gwyllt mewn pyllau; ffair amgylcheddol; digwyddiad yn Eisteddfod yr Urdd; taith gerdded Gymraeg ar hyd llwybrau natur; taith bioamrywiaeth ar y trên; sgyrsiau am fywyd gwyllt; dosbarth garddio er budd bywyd gwyllt; a'r ŵyl Go Wild flynyddol yn ne Cymru. Yn ogystal, cynhaliodd llawer o bartneriaethau Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol ddigwyddiadau gydol yr wythnos mewn ysgolion.

Caiff pob un o ddigwyddiadau Wythnos Bioamrywiaeth Cymru eu hyrwyddo'n ganolog ar ran Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol a sefydliadau partner, a chaiff deunyddiau wedi'u brandio eu darparu gydag arweiniad a deunydd cymorth. Llunnir datganiad i'r wasg ac erthygl ar gyfer y Western Mail. Cafodd Wythnos Bioamrywiaeth Cymru sylw ar Radio Cymru, ac

[3] http://www.nhm.ac.uk/nature-online/british-natural-history/uk-biodiversity-portal/get-involved/citizen-science-projects/index.html

[4] http://www.opalexplorenature.org/sites/default/files/7/file/Community-Environment-Report-low-res.pdf

ymddangosodd erthyglau yn y wasg leol a rhanbarthol ac ar wefan Things to Do[5] y BBC ar gyfer gweithgareddau.

Mae gwerthusiad o Wythnos Bioamrywiaeth Cymru 2012 ar gael ar wefan Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru: http://biodiversitywales.org.uk/cy-GB/Wythnos-Bioamrywiaeth-Cymru

**Digwyddiad 'Ffa Pob ar Dost' – 15 Mehefin**
Caiff digwyddiad ei gynllunio yn ystod Wythnos Bioamrywiaeth Cymru yn Amgueddfa Genedlaethol Cymru, Caerdydd lle bydd stondinau gwybodaeth ac arddangosfeydd rhyngweithiol i dynnu sylw at y cysylltiadau rhwng bwyd, bioamrywiaeth ac ecosystemau. Disgwylir y bydd amgueddfeydd rhanbarthol yn cynnal digwyddiadau ledled Cymru hefyd.

**Dyddiadau ar gyfer Calendr Natur 2013**

Gwylio Adar yr Ardd 26 – 27 Ionawr
Diwrnod Gwlyptiroedd y Byd 2 Chwefror
Wythnos yr Hinsawdd 4 – 10 Mawrth
Wythnos Genedlaethol Garddio 15 – 21 Ebrill (Thema – hau blodau gwyllt i wneud Prydain yn hardd a gwneud gwenyn yn hapus)
Wythnos Gynaliadwyedd Cymru Mai (y dyddiadau i'w cadarnhau)
Diwrnod Rhyngwladol Côr y Bore Bach 5 Mai
Diwrnod Rhyngwladol Bioamrywiaeth 22 Mai – Thema: Dŵr a Bioamrywiaeth
Diwrnod Amgylchedd y Byd 5 Mehefin
Diwrnod Cefnforoedd y Byd 8 Mehefin
Wythnos Bioamrywiaeth Cymru 8 – 16 Mehefin
Wythnos Genedlaethol Gwas y Neidr 20 – 28 Gorffennaf
Cyfrif Mawr Glöynnod Byw 13 Gorffennaf – 4 Awst
Wythnos Parciau Cenedlaethol 29 Gorffennaf – 4 Awst
Noson Ryngwladol Ystlumod Awst (i'w gadarnhau)
Wythnos Genedlaethol y Môr Awst (i'w gadarnhau)
Noson Genedlaethol Gwyfynod 8 – 10 Awst
Cynhadledd Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru 18 – 19 Medi
Beachwatch 20 – 23 Medi
Penwythnos Gwyllt i Gymru Hydref (i'w gadarnhau)
Tymor Casglu Hadau 23 Medi – 23 Hydref 2013
Wythnos Genedlaethol Coed 23 Tachwedd – 1 Rhagfyr

**Camau gweithredu y gofynnir amdanynt**
1. Y partneriaid i rannu dyddiadau Wythnos Bioamrywiaeth Cymru (8 – 16 Mehefin) â'u cysylltiadau
2. Y partneriaid i adolygu'r wybodaeth ddiweddaraf am weithgareddau/y Calendr Natur a chwilio am gysylltiadau a syniadau o ran digwyddiadau y gallent hwy eu cynnal neu gymryd rhan ynddynt.
3. Y partneriaid i rannu manylion y digwyddiadau sy'n ymwneud â natur ag aelodau eu Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol a Phartneriaeth Bioamrywiaeth Cymru (smchugh@wtwales.org) er mwyn eu hyrwyddo.

[5] http://www.bbc.co.uk/thingstodo